# Adolygiad Gwella Ansawdd o Brifysgol Bangor

## Yr Adroddiad Technegol

**Mai 2018**

## Cynnwys

**Dull yr Adolygiad Gwella Ansawdd ........................................................................ 1**
**Yr adolygiad yma ....................................................................................................... 1**
**Yr adroddiad yma........................................................................................................ 1**
**Y feirniadaeth drosfwaol am Brifysgol Bangor ............................................................. 2**
Y datganiad ar welliant................................................................................................. 2
1 Gwybodaeth gyd-destunol am y darparwr, poblogaeth y myfyrwyr a'r adolygiad ...... 3
2 Gwella profiad dysgu'r myfyrwyr ................................................................... 7
3 Cefnogi gwelliant mewn dysgu ac addysgu ........................................................ 13
4 Prosesau yn ymwneud ag ansawdd a safonau academaidd .................................. 16
5 Darpariaeth gydweithredol ........................................................................... 21

*Cyhoeddwyd yr adroddiad hwn yn y Gymraeg a'r Saesneg.*

# Dull yr Adolygiad Gwella Ansawdd

Mae gwefan QAA yn esbonio sut y gwneir yr Adolygiad Gwella Ansawdd ac mae ganddi ddolenni at y Llawlyfr ar gyfer Adolygiad Gwella Ansawdd a dogfennau defnyddiol eraill.[1] Mae rhagor o wybodaeth ar gael hefyd am yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch (QAA).[2]

# Yr adolygiad yma

Dyma Adroddiad Technegol yr Adolygiad Gwella Ansawdd a weithredwyd gan QAA ym Mhrifysgol Bangor. Roedd hwn yn adolygiad peilot o dan ddull newydd QAA o wneud Adolygiad Gwella Ansawdd. Cafwyd yr adolygiad mewn dau gam, fel a ganlyn: yr Ymweliad Cyntaf gan y Tîm ar 23 Ebrill 2018 a'r Ymweliad Adolygu rhwng 21 a 24 Mai 2018. Gweithredwyd yr adolygiad gan dîm o bedwar adolygwr:

- Yr Athro John Baldock
- Claire Blanchard
- Yr Athro John Feather
- Rhys Jenkins (adolygwr sy'n fyfyriwr).

Cyn yr ymweliadau adolygu, cyflwynodd y Brifysgol ddogfen hunanwerthuso (y Dadansoddiad Hunanwerthuso), Adroddiad Newidiadau, a Phecyn Gwybodaeth Ymlaen Llaw, sy'n cynnwys ystod o ddeunyddiau am drefniadau'r Brifysgol i reoli safonau academaidd ac ansawdd.

# Yr adroddiad yma

Mae adolygiadau QAA yn brosesau sy'n cael eu gweithredu ar sail tystiolaeth. Mae beirniadaethau'r adolygiadau'n codi o'r dogfennau y mae'r timau adolygu'n eu gweld, y cyfarfodydd y maent yn eu cynnal, a'r profiad a gânt fel adolygwyr sy'n gymheiriaid neu'n fyfyrwyr.

Yn yr adroddiad hwn, mae tîm yr Adolygiad Gwella Ansawdd yn rhoi eu beirniadaeth mewn perthynas â:

- gofynion Rhan 1 y Safonau a Chanllawiau Ewropeaidd (2015) (ESG) o ran sicrhau ansawdd mewnol
- gofynion rheoleiddiol sylfaenol perthnasol y Fframwaith Asesu Ansawdd ar gyfer Cymru.

Gallwch weld y beirniadaethau ar dudalen 2, ac mae canfyddiadau manwl yr adolygiad yn dilyn y rheiny mewn paragraffau wedi'u rhifo.

Mae Adroddiad Technegol yn nodi barn tîm yr Adolygiad Gwella Ansawdd o dan bob un o benawdau'r adroddiad. Mae Adroddiad Canlyniadau byrrach yn nodi prif ganfyddiadau'r Adolygiad Gwella Ansawdd i gynulleidfa ehangach. Mae'r Adroddiad Canlyniadau ar gyfer yr adolygiad hwn ar gael ar wefan QAA.[3]

Mae Adroddiadau Technegol yr Adolygiad Gwella Ansawdd wedi'u bwriadu'n bennaf i'r darparwyr dan sylw, ac i ddarparu sail gwybodaeth ar gyfer cynhyrchu adroddiadau thematig sy'n nodi canfyddiadau ar draws ystod o ddarparwyr.

---

[1] Rhagor o wybodaeth am yr Adolygiad Gwella Ansawdd: www.qaa.ac.uk/cy/adolygu-addysg-uwch/y-mathau-o-adolygiad/adolygiad-gwella-ansawdd.
[2] Rhagor o wybodaeth am QAA: www.qaa.ac.uk/cy/amdanom-ni.
[3] Yr Adroddiad Canlyniadau: www.qaa.ac.uk/cy/adolygu-addysg-uwch/adroddiadau-sicrhau-ansawdd/Prifysgol-Bangor

# Y feirniadaeth drosfwaol am Brifysgol Bangor

Ar sail yr wybodaeth a gyflwynwyd, mae'r tîm adolygu'n barnu hyn:

- Mae Prifysgol Bangor yn **bodloni** gofynion Rhan 1 y Safonau a Chanllawiau Ewropeaidd (ESG) o ran sicrhau ansawdd mewnol.
- Mae Prifysgol Bangor yn **bodloni** gofynion rheoleiddiol sylfaenol perthnasol y Fframwaith Asesu Ansawdd ar gyfer Cymru.

Mae hon yn feirniadaeth gadarnhaol, sy'n golygu bod gan y Brifysgol drefniadau cadarn i sicrhau safonau academaidd, i reoli ansawdd academaidd ac i wella ansawdd profiad y myfyrwyr.

## Y datganiad ar welliant

Mae dull y Brifysgol o wella profiad dysgu'r myfyrwyr yn effeithiol, yn canolbwyntio ar y myfyrwyr ac yn cael ei arwain gan y myfyrwyr. Darparodd y Brifysgol ddigonedd o enghreifftiau o welliannau ar lefel y Brifysgol, y colegau, yr ysgolion a'r rhaglenni.

# 1 Gwybodaeth gyd-destunol am y darparwr, poblogaeth y myfyrwyr a'r adolygiad

## 1.1 Gwybodaeth gryno am y darparwr, sy'n cynnwys fframwaith strategol, strwythur cyfundrefnol

1 Sefydlwyd Prifysgol Bangor yn 1884 o dan yr enw 'Coleg Prifysgol Gogledd Cymru', a ddaeth wedyn yn un o aelodau sylfaenol Prifysgol Cymru ffederal yn 1893. Yn 2007, derbyniodd y Brifysgol bwerau i ddyfarnu ei graddau a addysgir a'i graddau ymchwil ei hun ac mae wedi dyfarnu graddau Prifysgol Bangor ers 2009.

2 Cenhadaeth Prifysgol Bangor yw bod yn "sefydliad cryf, hyderus a gydnabyddir yn rhanbarthol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol fel canolfan ragoriaeth ar sail ei bortffolio amrywiol o addysgu ac ymchwil, ac am y profiad unigryw, amlddiwylliannol a chynhwysol y mae'n ei roi i'w staff a'i fyfyrwyr".

3 Mae ei Chynllun Strategol 2015-20 yn nodi pedair prif flaenoriaeth:

- addysg a phrofiad rhagorol i fyfyrwyr
- cryfhau llwyddiant ymchwil
- prifysgol ryngwladol i'r rhanbarth
- yr iaith a'r diwylliant Cymraeg ac ymwneud â'r cyhoedd.

Yn dilyn y broses o ddatblygu'r Cynllun Strategol cafwyd rownd gynllunio gyda phob ysgol a choleg academaidd yn cynllunio eu cyfraniad at flaenoriaethau allweddol ac yn cytuno ar dueddiadau priodol mewn perthynas â meincnodi.

4 Mae Cyngor y Brifysgol yn gyfrifol am ei chyfeiriad strategol a'r oruchwyliaeth arni, ac mae ei Chorff Gweithredol yn arwain ar y gwaith o reoli'r sefydliad, gyda chefnogaeth nifer o grwpiau tasg. Yn unol â'r hyn sydd wedi'i nodi yn yr Ordinhadau, Senedd y Brifysgol yw awdurdod academaidd y Brifysgol, gyda chefnogaeth gan nifer o is-bwyllgorau, megis y rheiny ar gyfer arholiadau, graddau ymchwil a rheoliadau.

5 Mae'r Brifysgol wrthi'n ad-drefnu ei strwythur o golegau ac ysgolion o 22 o ysgolion sydd wedi'u grwpio'n bum coleg i 13 o ysgolion mewn tri choleg. Bydd y strwythur newydd yn ei le ym mis Awst 2018, a bydd yn cynnwys Coleg y Celfyddydau, y Dyniaethau a Busnes, Coleg y Gwyddorau Dynol, a Choleg y Gwyddorau Amgylcheddol a Pheirianneg.

## 1.2 Cyfansoddiad poblogaeth y myfyrwyr, a thueddiadau allweddol a newidiadau a ddisgwylir o fewn y boblogaeth honno, gan gynnwys gwybodaeth am gadwraeth, cynnydd a chanlyniadau

6 Mae gan y Brifysgol oddeutu 9,500 o fyfyrwyr llawn amser a 1,600 o fyfyrwyr rhan amser. Mae nifer y myfyrwyr llawn amser wedi cynyddu dros y pum mlynedd diwethaf; mae nifer y myfyrwyr rhan amser wedi gostwng yn unol â thueddiadau cenedlaethol, er gwaethaf y cynnydd yn y nifer o fyfyrwyr ôl-raddedig yn y Brifysgol sy'n astudio'n rhan amser. Mae'r Brifysgol yn cyflogi 2,122 o staff, gyda 1,250 ohonynt ar sail llawn amser. Yn 2016-17, daeth 34% o fyfyrwyr y Brifysgol o Gymru, 45% o weddill y DU, 17% o dramor (ac eithrio'r UE) a 4% o wledydd eraill yr UE. Mae'n disgwyl gweld tyfiant parhaus yn y nifer o fyfyrwyr tramor o ganlyniad i sefydlu coleg mewnosodedig.

7 Ers 2015, mae'r Brifysgol wedi cymryd camau i ymateb i'r cyfraddau cadwraeth amrywiol a geir ar draws y Brifysgol. Roedd y camau hyn yn cynnwys archwilio'r arferion ar draws yr ysgolion a'r colegau a'r gefnogaeth a roddir iddynt gan Ganolfan Gwella Addysgu a Dysgu (CELT) y Brifysgol. Mewn rhai ysgolion, roedd hyn yn cynnwys datblygu a gweithredu

strategaethau cadw myfyrwyr. Mae CELT hefyd wedi arddangos ei harferion da yn ei chynhadledd flynyddol mewn perthynas â gwella cyfraddau cadwraeth. Ar ôl treialu'r syniad yn gyntaf mewn un o'r ysgolion academaidd, symudodd y Brifysgol y cyfnod o ail-sefyll o fis Awst i fis Gorffennaf er mwyn ymdrin yn well ag anghenion y myfyrwyr hynny sydd mewn perygl o ymadael rhwng y blynyddoedd academaidd. Mae'r Brifysgol wedi dadansoddi data am ddysgwyr i ganfod y myfyrwyr sydd ddim yn ymgysylltu'n ddigonol â'u rhaglenni oherwydd presenoldeb gwael, ac yna mae wedi targedu cefnogaeth ar eu cyfer mewn ffordd briodol. Yn olaf, mae gwasanaeth 'gohirio astudiaethau' yn cynghori myfyrwyr sy'n ystyried gadael eu cyrsiau ac mae'n canfod pa gymorth allai eu helpu i barhau â'u hastudiaethau. Ers 2012-13, mae'r Brifysgol wedi gweld gostyngiad yn y nifer o'i myfyrwyr sy'n ymadael cyn y diwedd, yn ôl data'r Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch.

8 Mae tariffau mynediad y Brifysgol yn uwch na'r canolrif ar gyfer y sector ond mae ei chyfran o raddau da (1sf/2:1) wedi parhau'n is na'r canolrif ar gyfer y sector yn y tair blynedd diwethaf, er eu bod yn cynyddu. Efallai bod hyn yn ymateb i nifer o gamau a gymerwyd gan y Brifysgol, sy'n cynnwys canfod pa ysgolion oedd y rhai gwaethaf am berfformio'n is na meincnod y sector ar gyfer dyfarnu graddau da ac hefyd ddefnyddio data am gyrhaeddiad fesul rhaglen a modiwl i ganfod a datrys problemau posibl lle mae dosbarthiad y marciau'n arbennig o isel, gyda chefnogaeth wedi'i theilwra gan CELT. Mae'r Brifysgol yn gweithio'n barhaus yn y maes yma am fod hyn yn un o'i themâu gwelliant.

## 1.3 Sylwadau ar y ffordd y mae'r darparwr yn cefnogi blaenoriaethau cenedlaethol

9 Mae'r Brifysgol yn cymryd camau i ymdrin â nifer o flaenoriaethau cenedlaethol drwy ddatblygu a darparu Cynlluniau Mynediad a Ffioedd sy'n cael eu cyflwyno i dderbyn cymeradwyaeth gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC), ac yr adroddir amdanynt yn rhywle arall. Trwy weithredu Cynlluniau Mynediad a Ffioedd, gall y Brifysgol ddangos ei bod yn hyrwyddo mynediad teg i addysg uwch, gan gynnwys mynediad i grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol, gall godi dyheadau addysgol a gwella profiad myfyrwyr o grwpiau o'r fath drwy gymorth academaidd a chymorth lles o safon uchel, gall gynyddu cyfraddau cadw myfyrwyr o ardaloedd sydd â chyfranogaeth isel, plant sy'n derbyn gofal, pobl sy'n gadael gofal a gofalwyr, a chefnogi myfyrwyr o grwpiau o'r fath i symud i mewn i swydd gyflogedig. Ers blwyddyn academaidd 2014-15, mae'r Brifysgol wedi perfformio'n well na'r meincnod ar gyfer y sector, ac i Gymru gyfan, o ran recriwtio myfyrwyr o ardaloedd sydd â chyfranogaeth isel; mae'n cofrestru mwy o fyfyrwyr sy'n derbyn y Lwfans Myfyrwyr Anabl na chyfartaledd y sector.

10 Mae gan y Brifysgol ymrwymiad strategol hirsefydlog a lefel uchel i'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru ac mae hyn wedi'i fynegi yn ei Chynllun Strategol. Roedd data o flwyddyn academaidd 2014-15 yn dangos bod y Brifysgol yn addysgu 42% o'r myfyrwyr addysg uwch sy'n astudio drwy gyfrwng y Gymraeg yng Nghymru ar draws yr ystod ehangaf o feysydd astudio. Mae'r amrywiaeth yn y ddarpariaeth gyfrwng Cymraeg a gynigir yn cefnogi'r nod cenedlaethol o ddyblu nifer y bobl sy'n gymwys mewn defnyddio'r Gymraeg. Mae darpariaeth gyfrwng Cymraeg y Brifysgol mewn meysydd astudio sy'n arwain at alwedigaethau yn y gwasanaethau cyhoeddus, megis gofal iechyd a gwaith cymdeithasol, yn cefnogi cyrff cyhoeddus eraill i gyrraedd y safonau sy'n ofynnol arnynt wrth ddarparu gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae gan y Brifysgol gofnod sefydledig o waith ymchwil yn y Gymraeg ac am yr iaith Gymraeg sy'n hysbysu datblygiad y polisi cenedlaethol ar ddefnyddio'r Gymraeg. Mae hefyd yn cefnogi datblygiad technolegau sy'n hwyluso estyniad yr addysg cyfrwng Cymraeg a'r gwasanaethau Cymraeg.

11 Mae'r Brifysgol wedi mabwysiadu'r egwyddorion datblygu cynaliadwy sydd wedi'u nodi yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, ac mae ei Chynllun Strategol yn nodi ei hymrwymiad i ddod yn 'Brifysgol Gynaliadwy' drwy feithrin 'diwylliant sy'n gwerthfawrogi ac yn hyrwyddo cynaliadwyedd'. Mae gwaith y Brifysgol i gyflawni'r nod yma'n cael ei dywys gan y Lab Cynaliadwyedd; mae'r Brifysgol hefyd yn gweithio gyda phrifysgolion eraill yng Nghymru drwy Grŵp Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol Addysg Uwch Cymru i rannu arferion da.

## 1.4 Sylwadau ar y gwaith paratoi ar gyfer yr adolygiad, yn cynnwys y ffordd y mae'r darparwr a'i fyfyrwyr wedi cydweithio mewn partneriaeth i baratoi ar gyfer yr adolygiad

12 Cafodd gwaith y Brifysgol i baratoi ar gyfer yr adolygiad ei arwain gan Grŵp Tasg Adolygiad Sefydliadol oedd ag aelodau o blith y Dirprwy Is-Gangellorion, yr Uned Sicrhau Ansawdd a Dilysu, a rheolwyr arweiniol eraill y Brifysgol sy'n gyfrifol am brofiad y myfyrwyr. Roedd cylch gwaith y Grŵp yn gofyn bod ei aelodau'n myfyrio'n feirniadol ar y prosesau a'r gweithdrefnau ar gyfer sicrhau ansawdd. Yn ogystal, mae'r Brifysgol wedi cynnal digwyddiadau hyfforddi i'w staff i esbonio beth yw eu rôl yn yr adolygiad, ac mae wedi cynnal cyfarfodydd ar y cyd rhwng y Grŵp Tasg a grwpiau tasg eraill i ymgysylltu'n eang gyda staff a myfyrwyr ac i alluogi cyfraniad at yr hunanwerthusiad.

13 Mae'r Brifysgol wedi cynnwys myfyrwyr yn ei gwaith o baratoi ar gyfer yr adolygiad drwy wneud Llywydd Undeb y Myfyrwyr yn aelod o'r Grŵp Tasg Adolygiad Sefydliadol, a thrwy gynnal cyfarfodydd anffurfiol gyda'r Brifysgol ar gynnwys Dadansoddiad Hunanwerthuso'r Brifysgol. Mae Undeb y Myfyrwyr wedi cynnal sesiynau briffio i'w Chyngor Cynrychiolwyr Cwrs a'i grwpiau ffocws i drafod a hysbysu'r materion yn y Dadansoddiad Hunanwerthuso.

14 Yn olaf, rhoddodd y Brifysgol fersiynau drafft o'r Dadansoddiad Hunanwerthuso a'r Adroddiad Newidiadau i'w Chyngor, gan nodi ei diddordeb sylweddol yn yr Adroddiad Newidiadau oedd yn rhoi manylion i'r Cyngor am y ffordd y llwyddodd y Brifysgol i gyflawni nifer o'r gofynion rheoleiddiol sylfaenol.

## 1.5 Crynodeb byr o natur a rhesymeg y meysydd penodol y dylai'r adolygiad a'r hunanwerthusiad ganolbwyntio arnynt

15 Mae'r Brifysgol wedi gofyn i'r tîm adolygu ystyried pedwar amcan y Strategaeth Addysgu a Dysgu dan Arweiniad Myfyrwyr fel meysydd i ganolbwyntio arnynt. Yr amcanion yma yw 'Cyfranogiad Myfyrwyr', 'Datblygu Cwricwlwm', 'Asesu ac Adborth', a 'Deilliannau Myfyrwyr a Dal Gafael ar Fyfyrwyr'. Daeth y syniad ar gyfer y strategaeth gan fyfyrwyr ac arweiniwyd ei datblygiad gan fyfyrwyr gyda chefnogaeth gan y Brifysgol, ac mewn partneriaeth â hi.

16 Dewiswyd y ddarpariaeth gyfrwng Cymraeg fel maes i ganolbwyntio arno oherwydd ei chryfderau a'i harwyddocâd strategol. Yn olaf, mae'r Brifysgol wedi gofyn i'r tîm adolygu edrych ar y datblygiadau ym meysydd cyflogadwyedd a darpariaeth ymchwil ôl-raddedig am fod y ddau yn feysydd yr oedd y Brifysgol eisiau eu gwella a lle'r oeddent wedi gweld heriau. Mae'r meysydd yma i ganolbwyntio arnynt yn cael eu trafod mewn adrannau eraill o'r adroddiad hwn.

## 1.6 Crynodeb o'r camau dilyniant a gymerwyd gan y darparwr yn dilyn yr adolygiad blaenorol

17 Gwerthusodd QAA ymateb y Brifysgol i'r argymhellion yn ei hadolygiad QAA yn 2012 mewn Ymgysylltiad Canol Proses sy'n Canolbwyntio ar y Myfyriwr ym mis Mehefin 2015. Mewn ymateb i'r argymhellion blaenorol yr oedd QAA yn eu hystyried yn 'fuddiol', mae'r Brifysgol wedi adolygu cyfansoddiad, atebolrwydd a gweithrediad ei grwpiau a'i phwyllgorau er mwyn sicrhau bod yr holl ddarpariaeth academaidd yn cael ei goruchwylio gan y Senedd, sy'n derbyn cofnodion gan ystod o grwpiau tasg, yn cynnwys y rheini sy'n ymwneud ag arferion dysgu, addysgu a sicrhau ansawdd. Mae wedi adolygu effeithiolrwydd academaidd digwyddiadau ail-ddilysu lle'r oedd nifer fawr a/neu amrywiaeth mawr o raglenni wedi cael eu hystyried yn wreiddiol. Mewn ymateb i hyn, mae wedi addasu digwyddiadau ail-ddilysu fel eu bod yn canolbwyntio ar nifer gyfyngedig o gyrsiau yn unig, gan wahaniaethu rhyngddynt. Mae'r Brifysgol yn defnyddio digwyddiadau dilysu ac ail-ddilysu i sicrhau bod yr holl raglenni wedi'u halinio gyda'r meincnodau pwnc perthnasol. Mae ganddi drefniadau i sicrhau y rhoddir gwybodaeth gywir a chyson yn llawlyfrau'r myfyrwyr. Yn olaf, mae wedi sicrhau bod yr wybodaeth a roddir

i ddarpar fyfyrwyr drwy wefan gyfan y Brifysgol yn gywir ac yn gyfredol drwy nodi pwy sy'n berchen ar yr wybodaeth, eu cynnwys yn y broses flynyddol o fonitro'r wybodaeth y maent yn gyfrifol amdani, ac yn gwneud hynny o dan oruchwyliaeth Grŵp Goruchwylio Gwybodaeth. Yn ogystal, mae'r Grŵp Goruchwylio Gwybodaeth yn monitro gwybodaeth yn barhaus ac mae'n cynnal gwiriadau dirybudd.

18 Mewn ymateb i'r argymhellion yr oedd QAA yn eu hystyried yn 'fanteisiol' yn ei hadolygiad yn 2012, mae'r Brifysgol wedi sicrhau myfyrio pellach ar adroddiadau arholwyr allanol ar lefel ysgol neu goleg drwy ofyn iddynt gael eu gwerthuso gan fyrddau'r ysgolion a'r colegau. Mae wedi hwyluso'r broses o fabwysiadu ei gofynion am gysondeb mewn arferion asesu drwy roi canllawiau i'w staff ac adolygu ei threfniadau cynnydd. Fel y mae'r adroddiad hwn yn ei nodi, mae wedi ymateb ymhellach drwy weithredu Fframwaith Asesu newydd. Mae'r Brifysgol wedi datblygu a lledaenu meini prawf i ddiffinio ysgolheictod, gan adeiladu ar y llwybrau dyrchafiad y cytunwyd arnynt yn ddiweddar ar gyfer staff addysgu, ac mae wedi adolygu ei pholisïau a'i gweithdrefnau ynglŷn ag adnoddau dynol i gyd-fynd â'r rheiny. Mae wedi adolygu ei threfniadau ar gyfer cyfarfodydd pwyllgorau'r ysgolion a'r colegau i wella ymgysylltiad y myfyrwyr â nhw, ac mae wedi rhoi canllawiau newydd i'r ysgolion a'r colegau. Yn olaf, mae'r Brifysgol wedi cyflwyno gwerthusiad systematig o'i darpariaeth o gymorth academaidd drwy ddefnyddio nifer o archwiliadau allanol; mae'r gwasanaethau cyngor a chymorth yn defnyddio fframwaith y Safon Ansawdd Matrics sy'n cynnwys adolygiad allanol.

## 1.7 Cyfrifoldebau'r darparwr am y ddarpariaeth addysg uwch y mae'n ei darparu ar ran y corff/cyrff dyfarnu graddau y mae'n gweithio mewn partneriaeth ag o/ â nhw

19 Mae'r Brifysgol yn cydweithio gyda nifer o gyrff eraill a sefydliadau dyfarnu eraill i gynnig graddau ar y cyd, Partneriaethau Hyfforddiant Doethurol, rhaglenni ar etholfraint, rhaglenni a ddilysir, dyfarniadau ar y cyd a dyfarniadau deuol, coleg mewnosodedig, trefniadau trosglwyddo, lleoliadau profiad gwaith, a chyfleoedd i astudio dramor. Mae'n cynnig darpariaeth addysg uwch ar gampysau eraill, yn bennaf yn Wrecsam ac yng Ngholeg Bangor yn Tsieina, yr ail mewn partneriaeth â Phrifysgol Coedwigaeth a Thechnoleg Canol De Tsieina [Central South University of Forestry and Technology] (CSUFT).

20 Mae'r Brifysgol yn rhestru nifer o bartneriaid allweddol sy'n cynnwys y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, Grŵp Llandrillo Menai, Sefydliad Datblygu Rheolaeth Singapôr [Management Development Institute of Singapore] (MDIS) yn Singapôr ac yn Wsbecistan, Sefydliad Bancio a Chyllid Bahrain [Bahrain Institute of Banking and Finance] (BIBF), Prifysgol Bologna, a Grŵp Addysg Ryngwladol Rhydychen [Oxford International Education Group].

# 2 Gwella profiad dysgu'r myfyrwyr

## 2.1 Y dull strategol o wella profiad y myfyrwyr

21 Rheolir dull y Brifysgol o wella profiad ei myfyrwyr gan ei Strategaeth Profiad Myfyrwyr. Lluniwyd y strategaeth gyntaf yn 2011, a chafodd ei gweithredu drwy gynllun gweithredu o dan oruchwyliaeth grŵp llywio ar y cyd rhwng y Brifysgol ac Undeb y Myfyrwyr. Unwaith yr oedd yn fodlon bod y nod o weithio mewn partneriaeth â'r myfyrwyr wedi'i ymwreiddio'n llwyddiannus (gwelwch adran 2.2), lansiodd y Brifysgol y Strategaeth Profiad Myfyrwyr gyfredol sy'n pwysleisio pwysigrwydd adnabod anghenion y corff myfyrwyr amrywiol. Ei hamcanion strategol yw blaenoriaethu ymgysylltiad y myfyrwyr, rhoi profiad ôl-radd rhagorol, arwain y gwaith arloesi ar gyfer yr iaith Gymraeg, datblygu cwricwlwm cynhwysol, creu graddedigion sy'n gyflogadwy, adeiladu cymuned gynhwysol, datblygu cyfleusterau gyda ffocws ar y myfyriwr, a chefnogi'r gymuned leol. Mae rhai o'r amcanion hyn wedi ffurfio'r meysydd i ganolbwyntio arnynt yn yr adolygiad hwn sy'n derbyn sylw drwy gydol yr adroddiad yma. Disgrifiwyd canlyniadau penodol a gynhyrchir gan y strategaeth gyfredol mewn Adroddiad Cynnydd yn 2016 sy'n ffurfioli'r broses o weithredu a monitro'r strategaeth. Mae'r Brifysgol yn cydnabod ei bod hi'n anodd monitro strategaeth mor eang gyda chynifer o bobl yn gyfrannog yn y gwaith o'i gweithredu hi. Bydd y strategaeth gyfredol yn dod i ben yn ystod y flwyddyn academaidd hon, ac mae hyn wedi rhoi cyfle iddi adolygu ei gweithrediad wrth symud ymlaen. Mae'r Brifysgol yn bwriadu parhau â'i hagwedd strategol tuag at wella profiad y myfyrwyr drwy Gynlluniau Mynediad a Ffioedd blynyddol y Brifysgol a'r Strategaeth Addysgu a Dysgu dan Arweiniad Myfyrwyr.

22 Darparodd y Brifysgol esiamplau i ddangos fel y mae'r dull strategol hwn yn gweithio'n effeithiol wrth gael ei weithredu. I wella ei dull o weithio mewn partneriaeth â myfyrwyr, mae wedi gweithredu Strategaethau Profiad Myfyrwyr (gwelwch adran 3.2). I ddatblygu'r profiad ôl-radd, mae'r Brifysgol wedi sefydlu Ysgol Ddoethurol (gwelwch adran 3.4), ymhlith pethau eraill. Mae'r Brifysgol wedi cymryd camau i wella'r profiad dysgu cyfrwng Cymraeg, er enghraifft drwy gynyddu nifer y modiwlau sydd ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg (gwelwch adran 3.7). Mae cyflogadwyedd graddedigion yn un o'r meysydd i ganolbwyntio arnynt yn yr adolygiad hwn, a chyflawnwyd hyn i raddau mawr drwy greu Hwb Cyflogadwyedd Bangor (gwelwch adran 3.5). Roedd hi'n amlwg bod y staff yn ymwybodol o'r Strategaeth Addysgu a Dysgu dan Arweiniad Myfyrwyr ac o'r prosiectau sy'n cael eu cyflwyno i'w gweithredu hi.

## 2.2 Y dull o weithio mewn partneriaeth â'r myfyrwyr

23 Ers lansio'r Strategaeth Profiad Myfyrwyr yn 2011, mae'r Brifysgol wedi ymdrechu'n gyson i wreiddio'r cysyniad o fyfyrwyr fel partneriaid ar draws y Brifysgol ac ym mhob agwedd ymarferol. Mae gan y Brifysgol esiamplau lawer sy'n dangos bod y cysyniad hwn wedi ymwreiddio'n dynn. Un enghraifft o'r fath yw'r Strategaeth Addysgu a Dysgu dan Arweiniad Myfyrwyr a'i gweithrediad parhaus. Esiampl arall yw ymgyrch 'Ar y Cyd…' yn lle ymgyrch 'Fe Ddywedoch Chi, Fe Wnaethom Ni'. Roedd y Brifysgol a'i myfyrwyr o'r farn bod y olaf yma'n creu bwlch rhwng y Brifysgol a'i myfyrwyr. Mae'r ymgyrch 'Ar y Cyd…' yn tynnu sylw at ddull positif a chynhwysol y Brifysgol o weithio gyda'r corff myfyrwyr wrth ymateb i adborth gan fyfyrwyr, ac at ei hymrwymiad i gydweithio â'i myfyrwyr fel partneriaid.

24 Mae'r myfyrwyr yn cymryd rhan ym mhrosesau sicrhau ansawdd y Brifysgol, ac mae'r staff yn croesawu ac yn amlwg yn gwerthfawrogi cyfranogaeth y myfyrwyr, ac mae'r gyfranogaeth yma wedi cael argraff dda. Mae myfyrwyr wedi'u cynrychioli ar holl bwyllgorau mawr y Brifysgol, lle maent yn cael effaith bositif. Mae'r cynrychiolwyr cwrs yn adlewyrchu'r corff myfyrwyr ehangach ac maent yn cynnwys cynrychiolwyr penodol ar gyfer carfannau arbennig megis myfyrwyr cyfrwng Cymraeg, myfyrwyr rhyngwladol a myfyrwyr anabl. Anogir myfyrwyr o ddarparwyr cydweithredol i gyfrannu cymaint ag y gallent hefyd, er bod y Brifysgol yn cydnabod bod rhwystrau diwylliannol mewn rhai amgylchiadau. Roedd nifer o'r myfyrwyr a gyfarfu â'r tîm adolygu'n cymryd rhan ym mhwyllgorau'r Brifysgol ac yn teimlo eu bod wedi cael eu hyfforddi'n

ddigonol. Dywedodd y myfyrwyr eu bod yn ystyried y system gynrychioli'n un effeithiol ar gyfer mynegi ac ymdrin â'u pryderon ac i ddod â newidiadau. Mae'r myfyrwyr hefyd yn croesawu polisi 'drws agored' sy'n eu galluogi i drafod eu pryderon gyda'r staff unrhyw bryd. Mae'r tîm adolygu'n **canmol** y bartneriaeth estynedig gyda'r myfyrwyr sy'n gwerthfawrogi'r gwahanol ddiwylliannau ac sy'n treiddio i bob agwedd o fywyd y Brifysgol.

### 2.3 Cydnabod ac ymateb i'r amrywiaeth ym mhoblogaeth y myfyrwyr, gan gynnwys dulliau o ehangu mynediad, anghenion grwpiau penodol o fyfyrwyr, ac ystyried y dull astudio, lefel yr astudio a'r lleoliad astudio

25 Ar lefel strategol, mae ei gweledigaeth strategol yn ymrwymo'r Brifysgol i ehangu mynediad ac i sicrhau cydraddoldeb i'r myfyrwyr i gyd. Mae Cynllun Cydraddoldeb Strategol y Brifysgol yn nodi amcanion a chynllun gweithredu'r Brifysgol i hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth ac i atal gwahaniaethu, elfen y mae'n ei monitro drwy Grŵp Tasg Cydraddoldeb ac Amrywiaeth ac y mae'n adrodd am ei chynnydd yn flynyddol.

26 Gallwch ddarllen rhagor am ddull y Brifysgol o ehangu mynediad yng Nghynllun Mynediad a Ffioedd 2018-19 y Brifysgol, sy'n amlinellu nifer o weithgareddau allgymorth. Mae'r gweithgareddau hyn yn cynnwys parhau i gefnogi'r Bartneriaeth Ymestyn yn Ehangach, gweithio'n uniongyrchol gyda'r ysgolion a'r colegau, gweithgareddau ymgysylltu â gwyddoniaeth i annog rhagor o ferched i astudio pynciau gwyddoniaeth, technoleg, peirianneg a mathemateg, digwyddiadau sydd wedi'u llunio i bobl sy'n gadael gofal a'r rheiny sydd â chyfrifoldebau gofalu, cymorth ariannol ar ffurf bwrsariaethau, a gweithio gyda phartneriaethau strategol ar lefelau cymunedol, rhanbarthol a chenedlaethol megis Grŵp Llandrillo Menai. Mae Canolfan Ehangu Mynediad benodol y Brifysgol yn cefnogi'r gweithgareddau allgymorth hyn, ac mae'n ceisio cynyddu ymwybyddiaeth pobl o faterion yn ymwneud ag ehangu mynediad. Mae'r Cynllun Mynediad a Ffioedd hefyd yn disgrifio'r ffordd y mae'r Brifysgol yn darparu cymorth academaidd a chymorth lles o safon uchel. Mae'r Brifysgol yn monitro'r gwaith ehangu mynediad ac yn rhoi adroddiad manwl bob blwyddyn am y gwaith a wneir a'r cynnydd a gafwyd mewn Dogfen Cynllunio Strategol ac Ymgysylltu. Mae'r Brifysgol wedi gweld cynnydd yn y nifer o fyfyrwyr sy'n byw yng Nghymru ac sy'n dod o ardaloedd o amddifadedd lluosog neu o ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf (o 10.4% yn 2011-12 i 11.8% yn 2016-17), ac mae hefyd gynnydd yn y gyfran o fyfyrwyr sy'n dod o ardaloedd yn y DU sydd â chyfranogaeth isel (o 27.2% yn 2011-12 i 30.7% yn 2016-17). Mae'r Brifysgol wedi ennill Gwobr Efydd Athena SWAN, ac mae tair o'i hysgolion academaidd wedi ennill y wobr hefyd.

27 Mae anghenion grwpiau penodol o fyfyrwyr yn cael eu diwallu mewn nifer o ffyrdd. Drwy ddadansoddi data am ddysgwyr, gall y Brifysgol fonitro myfyrwyr unigol, grwpiau o fyfyrwyr, modiwlau, neu raglenni ymgysylltu. Mae'r Brifysgol wedi datblygu rhyngwyneb data mewnol ar-lein ('fyMangor') sy'n galluogi i diwtoriaid personol gofnodi nodiadau cyfarfodydd a gweld cofnodion presenoldeb y myfyrwyr a'u Cynlluniau Cefnogi Dysgu Personol lle bo'n berthnasol. Darperir cymorth academaidd drwy'r Ganolfan Sgiliau Astudio, ac mae'r gwasanaeth llyfrgell yn cynnal sesiynau ar sgiliau perthnasol ar draws y Brifysgol.

28 Mae'r Brifysgol yn cefnogi ei myfyrwyr i'w datblygu fel dysgwyr yn ganolog ac ar lefel ysgol neu goleg. Wrth ddisgwyl i Lywodraeth y DU newid y ffordd y mae'n ariannu'r Lwfans Myfyrwyr Anabl (LMA), gwnaeth y Brifysgol adolygiad o'i chymorth i fyfyrwyr anabl a newidiodd ei strwythur mewn ffyrdd sydd heb gyfaddawdu'r gwasanaethau rhagorol a roddir i fyfyrwyr. Mae'r Gwasanaeth Anabledd wedi perfformio'n dda yn ei Archwiliad Ansawdd LMA a chanfu ei arolwg myfyrwyr ei hun fod 95% o'r myfyrwyr yn fodlon â'r gwasanaethau a ddarperir, gyda 51% yn rhoi'r sgôr 'rhagorol' iddo. Mae'r Brifysgol yn cydnabod bod angen datblygu'r ddarpariaeth hon yn barhaus. Bydd y gwelliannau arfaethedig yn cynnwys sesiynau un-i-un i flasu sgiliau astudio, penodi cydlynydd cymorth anfeddygol newydd i symleiddio'r prosesau, a gweithredu system weinyddu newydd i ostwng llwyth gwaith tiwtoriaid.

29 Mae'r Brifysgol yn cydnabod bod myfyrwyr sy'n dod o deuluoedd incwm isel yn llai tebygol o gymryd rhan mewn gweithgareddau allgwricwlaidd oherwydd y costau cysylltiedig. O ganlyniad, mae buddsoddiad parhaus y Brifysgol yn sicrhau bod gan fyfyrwyr fynediad rhad ac am ddim i'r holl glybiau chwaraeon, cymdeithasau a gweithgareddau gwirfoddoli yn Undeb y Myfyrwyr i sicrhau bod myfyrwyr yn wynebu llai o rwystrau wrth geisio manteisio i'r eithaf ar eu profiad Prifysgol. Mae'r Brifysgol hefyd yn parhau i gynnig bwrsariaethau i'r rheiny sydd mewn angen.

30 Mae cymorth lles ar gael i bob myfyriwr sydd ei angen, ac mae'r Brifysgol wedi gweithredu Strategaeth Iechyd Meddwl Myfyrwyr o dan oruchwyliaeth gweithgor i'r Brifysgol gyfan. Mae'r Gwasanaethau Myfyrwyr yn darparu gwybodaeth a chanllawiau ar-lein i gefnogi lles meddwl. Gellir gwneud apwyntiadau gyda chynghorwyr ar yr e-bost a'u cynnal drwy fideo-gynadledda, gan alluogi i'r dysgwyr o bell ddefnyddio'r gwasanaethau. I'r myfyrwyr sy'n astudio yn Wrecsam, ategir y cymorth i'r myfyrwyr drwy gytundeb gwasanaethau gyda Phrifysgol Glyndŵr yn Wrecsam. Mae'r Brifysgol yn parhau i ddatblygu'r deunyddiau ar-lein a ddarperir gan y Gwasanaethau Myfyrwyr i ehangu mynediad at y gwasanaethau hyn ymhellach. Hefyd, mae darpariaeth y Gwasanaethau Myfyrwyr o fewn y Brifysgol wedi ennill achrediad i'r Safon Ansawdd Matrics, ac mae Adroddiad Blynyddol y Gwasanaethau Myfyrwyr yn cadarnhau bod yr adborth gan y myfyrwyr yn gadarnhaol.

31 Mae'r data'n dangos bod y Brifysgol yn cydnabod amrywiaeth poblogaeth ei myfyrwyr ac yn ymateb yn effeithiol. Mae metrigau mewnol ac allanol, megis yr Arolwg Myfyrwyr Cenedlaethol (AMC), Archwiliad y Gwasanaethau Myfyrwyr, yr Archwiliad Ansawdd LMA a'r Safon Ansawdd Matrics, a data gan CCAUC, yn adlewyrchu gwaith rhagorol y Brifysgol yn y maes yma. Mae myfyrwyr sydd wedi rhyngweithio gyda'r gwasanaethau hyn yn siarad mewn ffordd gadarnhaol iawn am y gefnogaeth a'r cymorth y maent yn eu derbyn, sy'n cydberthyn i'r dystiolaeth a'r data a gyflwynwyd i'r tîm adolygu. Mae'r Brifysgol yn parhau i wella'r ddarpariaeth hon a gwella'r profiad i'r myfyrwyr i gyd.

## 2.4 Profiad y myfyrwyr ôl-raddedig a addysgir a'r myfyrwyr ymchwil

32 Mae'r Brifysgol yn trin myfyrwyr israddedig a myfyrwyr ôl-raddedig a addysgir mewn ffordd debyg i bwrpasau sicrhau a gwella ansawdd, gan ddadlau bod rhaglenni a addysgir yn weddol gyffelyb o ran eu hamcanion a'u gweithrediad, er bod hynny ar wahanol lefelau. Mae'n ystyried bod profiad y myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig yn wahanol i brofiad y myfyrwyr a addysgir am ei fod yng nghyd-destun disgyblaeth benodol ac yn rhan o amgylchedd ymchwil ehangach y Brifysgol.

33 Mae'r tîm wedi ymdrin ag ystyriaethau'r berthynas rhwng y ddarpariaeth israddedig a'r ddarpariaeth ôl-raddedig a addysgir. Roedd myfyrwyr ôl-raddedig a addysgir (gan gynnwys rhai oedd wedi astudio ar gyfer eu graddau israddedig yn y Brifysgol) yn cadarnhau bod gwahaniaethu amlwg rhwng eu gwaith ôl-raddedig a'u gwaith israddedig. Hefyd, clywodd y tîm adolygu gan fyfyrwyr ar raglenni gradd meistr integredig eu bod yn teimlo eu bod wedi trosglwyddo i waith mwy cymhleth, a'u bod wedi derbyn cefnogaeth dda wrth wneud hynny.

34 Dim ond lleiafswm o'r myfyrwyr ôl-raddedig a addysgir oedd wedi beirniadu'r dryswch ynglŷn â mynediad at y rhith-amgylchedd dysgu ar lefel modiwl, ac oedd wedi nodi bod rhai dosbarthiadau'n gogwyddo gormod at yr israddedig weithiau lle'r oedd y myfyrwyr ôl-raddedig a addysgir a'r myfyrwyr israddedig yn cael eu dysgu ynghyd. Ond clywodd y tîm adolygu hefyd bod myfyrwyr israddedig a myfyrwyr ôl-raddedig a addysgir sy'n rhannu darlithoedd yn cael sesiynau tiwtora gwahanol er mwyn eu cefnogi i gyflawni gwahanol ganlyniadau dysgu. Ystyrir y rhain yn faterion gweddol fach, ac roedd y myfyrwyr yn mynegi'r farn yn glir eu bod yn teimlo wedi'u hintegreiddio'n llawn i mewn i'w hysgolion perthnasol a bod ganddynt lais ar wahân. Dywedodd y staff academaidd wrth y tîm adolygu hefyd am gynrychiolaeth ôl-raddedig effeithiol o fewn yr ysgolion.

35 Y nod wrth sefydlu'r Ysgol Ddoethurol yn 2016, dan arweiniad Deon Ymchwil Ôl-radd, oedd sicrhau profiad arbennig o safon uchel i'r holl fyfyrwyr ymchwil ôl-raddedig drwy ddarparu hyfforddiant a thrwy eu hymgorffori'n llawn yn niwylliant ymchwil y Brifysgol gan hefyd greu profiad ymchwil mwy cyfartal ar draws yr ysgolion a'r colegau. Cadarnhaodd y staff a'r myfyrwyr bod y broses o gyflawni hyn yn dod yn ei blaen yn dda. Mae gan yr Ysgol Ddoethurol gyfrifoldeb ar draws y Brifysgol am ddarparu hyfforddiant a datblygiad proffesiynol i fyfyrwyr ymchwil ôl-raddedig, ac am hyfforddi a datblygu goruchwylwyr. Mae hyn yn cael ei gyflwyno drwy ddarparu cyrsiau ymsefydlu a hyfforddi mewn cydweithrediad â'r ysgolion a'r colegau. Dywedodd y staff bod y gwelliant yma yn y ddarpariaeth ac ym mhrofiad y myfyrwyr yn ystyried sylwadau gan arholwyr allanol ac yn mabwysiadu arferion da i'r myfyrwyr i gyd mewn hyfforddiant a goruchwyliaeth fel sy'n ofynnol gan Gynghorau Ymchwil y DU i'r myfyrwyr y maent yn eu hariannu. Cadarnhaodd y myfyrwyr eu bod wedi derbyn hyfforddiant priodol, a bod ganddynt gyfleusterau a chymorth academaidd a bugeiliol sy'n briodol i'w gwaith ymchwil. Mae'r tîm adolygu'n **cadarnhau** datblygiad yr Ysgol Ddoethurol i gefnogi profiad ymchwil ôl-radd arbennig a chyson ar draws yr ysgolion i gyd.

36 Mae'r Brifysgol yn cydnabod bod canlyniadau arolygon myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig yn y gorffennol wedi dangos cyfraddau cynnydd a chwblhau sy'n is na chyfartaledd cenedlaethol y DU. Mae'r mater yma'n derbyn sylw hefyd drwy'r Ysgol Ddoethurol sy'n monitro sefydliad y Timau Goruchwylio a'r defnydd effeithiol a wneir ohonynt ac sy'n gofyn am adroddiadau rheolaidd, gan gynnwys adolygiad blynyddol, gan y Timau. Dywedwyd wrth y tîm adolygu bod staff uwch yn hyderus bod y system yn cael ei gweithredu'n effeithiol, a bod y Cyfarwyddwr Astudiaethau Ôl-radd yn cysylltu gyda Deoniaid y Colegau os a phan fydd problemau'n codi. Mae'r tîm adolygu o'r farn bod gan y Brifysgol y trefnau a'r arferion cywir i ymdrin â phroblemau o'r fath yn briodol. Roedd y mwyafrif o'r myfyrwyr y cyfarfu'r tîm adolygu â nhw o'r farn bod yr Ysgol Ddoethurol yn ddatblygiad positif, er nad oedd rhai ohonynt yn hollol ymwybodol o'r datblygiadau.

## 2.5 Cefnogi'r myfyrwyr i'w datblygu fel dysgwyr

37 Parhawyd i fuddsoddi yn y ddarpariaeth Cymorth Sgiliau Astudio yn y Brifysgol. Ers lansio Canolfan Sgiliau Astudio, mae amrywiaeth y gefnogaeth a ddarperir wedi tyfu, ac mae'r defnydd a wneir ohoni wedi cynyddu, ac mae'r mwyafrif o ddefnyddwyr y gwasanaeth yn eu cyfeirio eu hunain ati. Mae'r Ganolfan wedi cael effaith bositif ar gyrhaeddiad y myfyrwyr, ac mae wedi bod o fudd i fyfyrwyr sy'n cyflawni'n uchel yn ogystal â'r rheiny sydd mewn perygl o fethu. Mae nifer o gyfleoedd eraill ar gael i'r myfyrwyr hefyd i'w datblygu nhw fel dysgwyr, megis y cynllun 'Ieithoedd i Bawb' a'r cynllun 'Cyflwyniadau Llafar', ac mae'r myfyrwyr yn ymwybodol ohonynt.

38 Yn yr adolygiad hwn, mae'r Brifysgol wedi dewis y ddarpariaeth i hybu cyflogadwyedd myfyrwyr fel maes i ganolbwyntio arno. Cydnabuwyd hon yng Ngwobr Aur y Fframwaith Rhagoriaeth Addysgu yn 2017. Mae gan ogledd orllewin Cymru gyfran isel o raddedigion cyflogedig mewn swyddi sgiliau uchel o'i gymharu â nifer o ranbarthau trefol, ac mae'r Brifysgol yn cydnabod yr heriau sy'n codi yn sgil hynny. Mewn ymateb i hyn, mae'r Brifysgol wedi sefydlu Hwb Cyflogadwyedd Bangor (yr Hwb) sy'n galluogi i fyfyrwyr adnabod a chanolbwyntio ar y sgiliau a'r nodweddion yr hoffent eu datblygu. Mae modd defnyddio'r Hwb hefyd i gofnodi tystiolaeth o weithgareddau y mae'r myfyrwyr yn eu gwneud i bwrpasau'r Adroddiad Cyrhaeddiad Addysg Uwch (HEAR) ac i ddangos eu bod yn cwrdd â'r meini prawf ar gyfer derbyn Gwobr Cyflogadwyedd Bangor i gydnabod sgiliau ychwanegol a ddysgwyd. Mae ymgysylltiad â'r Hwb wedi cynyddu'n gyson ers ei lansio, ac roedd 64% o'r myfyrwyr israddedig yn ymgysylltu â hi erbyn diwedd y flwyddyn academaidd 2016-17. Mae data'r arolwg Cyrchfannau Ymadawyr Addysg Uwch (DLHE) yn cadarnhau bod y camau a gymerwyd gan y Brifysgol yn gyfatebol â gwelliant yng nghyflogadwyedd y myfyrwyr graddedig. Er mwyn symud ymlaen, mae gan y Brifysgol nifer o fentrau i wreiddio'r Hwb yn ddyfnach o fewn yr ysgolion ac ymgyrch i annog myfyrwyr i ystyried cyflogadwyedd yn gynharach yn eu taith drwy'r brifysgol. Mae'r myfyrwyr

yn ymwybodol o Wobr Cyflogadwyedd Bangor a'r Hwb a gallent weld y manteision uniongyrchol y byddent yn eu cael ohoni.

## 2.6 Yr amgylchedd dysgu a ddarperir, gan gynnwys y defnydd a wneir o dechnoleg

39 Mae'r Brifysgol wedi gwneud nifer o fuddsoddiadau mawr yn yr amgylchedd dysgu, yn arbennig Pontio, sef canolfan gelfyddydau ac arloesi i'r Brifysgol ac i'r gymuned leol. Mae'r Brifysgol yn monitro prosiectau eraill ar raddfa lai sydd dan reolaeth yr Is-grŵp Cyfleusterau Addysgu. Datblygwyd ystafell fasnachu yn yr Ysgol Fusnes a chynyddwyd y mannau dysgu cymdeithasol a chyfrifiaduro ers yr adolygiad diwethaf.

40 Mae'r Brifysgol wedi parhau i ddatblygu technoleg dysgu. Mae'r meddalwedd ar-lein 'fyMangor' yn galluogi'r Brifysgol i ddadansoddi data am ddysgwyr er mwyn monitro presenoldeb, cyfranogaeth a chyrhaeddiad y myfyrwyr fel bod modd ymyrryd a helpu myfyrwyr sydd mewn perygl. Mae'n gweithredu fel system cofnodion myfyrwyr ac yn galluogi i diwtoriaid personol gofnodi nodiadau am fyfyrwyr. Mae'n cynnal Canolfan Ceisiadau newydd i fyfyrwyr, sy'n disodli prosesau wedi'u seilio ar bapur ac sy'n galluogi i fyfyrwyr gwblhau ffurflenni ar-lein. Mae'r ffurflenni hyn yn cynnwys ceisiadau am estyniadau, newid mewn gradd, newid mewn enw, ac amgylchiadau esgusodol. Mae hefyd yn cynnal Cynlluniau Cefnogi Dysgu Personol y myfyrwyr. Nid oedd rhai o'r myfyrwyr a gyfarfu â'r tîm adolygu wedi clywed am y Ganolfan Ceisiadau i fyfyrwyr, ond roeddent yn cytuno eu bod yn teimlo'n gyfforddus yn siarad â thiwtor personol ac mai dim ond os byddai problem ganddynt y byddent yn gwybod am y Ganolfan Ceisiadau. Cytunodd y myfyrwyr bod y porth 'fyMangor' yn lle defnyddiol i gael gwybodaeth am farciau ac i ymgysylltu â Gwobr Cyflogadwyedd Bangor.

41 Mae'r Brifysgol, yn debyg i'r mwyafrif o sefydliadau eraill, yn gwneud mwy o ddefnydd erbyn hyn o rith-amgylchedd dysgu. Dywedodd y myfyrwyr bod y rhith-amgylchedd dysgu'n gweithio'n dda, a bod y Brifysgol yn ymateb yn gyflym pan fydd problemau. Hefyd, mae darlithoedd yn cael eu recordio drwy ddefnyddio'r system Panopto ac yn cael eu storio ar y rhith-amgylchedd dysgu lle maent ar gael i'r myfyrwyr. Yn ôl canlyniadau'r Arolwg Myfyrwyr Cenedlaethol (AMC) sy'n ymwneud â darpariaeth TG ddigonol, mae'r Brifysgol yn cwrdd â, neu'n mynd dros y canolrif ar gyfer y sector, ac mae'n sicrhau sgôr uwch bob tro na'r sgôr cyfartalog yng Nghymru. Cefnogwyd hyn ymhellach gan arolwg mewnol y Brifysgol ym mis Mehefin 2017 Mae'r Tîm Technoleg Dysgu a CELT wedi datblygu nifer o weithdai a deunyddiau cymorth ar-lein i gynorthwyo staff addysgu i ddefnyddio'r technolegau. Dywedodd y staff wrth y tîm adolygu eu bod yn derbyn cefnogaeth dda wrth ddefnyddio cyfleusterau technegol ac wrth ddatblygu eu sgiliau technegol.

42 Mae'r Brifysgol yn cydnabod manteision datblygu'r adnoddau dysgu y mae'n eu darparu ar-lein sy'n arbennig o bwysig i nifer fechan o ddysgwyr o bell ac i'r rheiny sy'n astudio y tu allan i Brifysgol Bangor. Maent hefyd yn cydnabod yr anawsterau wrth ddarparu rhai o'r adnoddau academaidd i fyfyrwyr sy'n astudio drwy gyfrwng y Gymraeg. Roedd y myfyrwyr cyfrwng Cymraeg a gyfarfu â'r tîm adolygu'n bositif am y deunyddiau a ddarperir iddynt, o ystyried y nifer cyfyngedig o ddeunyddiau academaidd a gyhoeddir yn y Gymraeg. Roedd y myfyrwyr a gyfarfu â'r tîm arolygu, myfyrwyr oedd yn cynrychioli pob lefel a phob dull astudio, yn fodlon gyda'r adnoddau a ddarperir iddynt. Cadarnhawyd hyn gan y canlyniad sy'n uwch na chyfartaledd y sector a gafwyd mewn ymateb i'r cwestiynau am yr adnoddau llyfrgell yn yr Arolwg Myfyrwyr Cenedlaethol.

## 2.7 Cefnogi profiad dysgu'r myfyrwyr cyfrwng Cymraeg

43 Mae'r Brifysgol yn nodi ei hymrwymiad i ddarpariaeth Gymraeg yn ei strategaethau, a'i chefnogaeth i fyfyrwyr cyfrwng Cymraeg yn ei Pholisi Iaith Gymraeg. Mae'r Brifysgol wedi dewis darpariaeth gyfrwng Cymraeg fel maes i ganolbwyntio arno yn yr adolygiad hwn. Ers yr adolygiad diwethaf, mae'r Brifysgol wedi cynyddu ei darpariaeth gyfrwng Cymraeg ac mae

wedi llwyddo i gynyddu nifer y myfyrwyr sy'n astudio 40 o gredydau neu fwy drwy gyfrwng y Gymraeg. Yn ei chyd-destun, mae'r ddarpariaeth hon yn cyfrif am 42% o'r holl ddarpariaeth addysg uwch cyfrwng Cymraeg a addysgir yn y prifysgolion i gyd yng Nghymru. Yn unol ag ymrwymiad y Brifysgol i'r Gymraeg, mae nifer o aelodau'r staff a gafodd eu hariannu'n wreiddiol drwy gynllun staffio'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol wedi cael eu cyflogi'n uniongyrchol gan y Brifysgol. Mae'r Brifysgol yn cymell myfyrwyr i astudio drwy gyfrwng y Gymraeg drwy gynnig bwrsariaethau iddynt a thrwy bwysleisio gwerth y Gymraeg fel mantais wrth chwilio am swydd. Roedd y myfyrwyr yn ymwybodol o fanteision o'r fath.

44 Er gwaethaf y prinder deunyddiau academaidd Cymraeg, mae'r Brifysgol yn darparu ei chasgliadau helaeth ei hun, a phyrth adnoddau'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol. Mae'n annog ei staff i gyhoeddi gwerslyfrau ac adnoddau yn y Gymraeg ac i ddatblygu adnoddau dysgu cyfrwng Cymraeg, ac mae rhai ohonynt ar gael ar-lein. Dywedodd y myfyrwyr bod y darlithwyr yn hynod sensitif i anghenion myfyrwyr sy'n astudio drwy gyfrwng y Gymraeg. Rhoddwyd nifer o enghreifftiau gan fyfyrwyr oedd yn gallu newid yn rhwydd rhwng y ddwy iaith drwy gydol eu hastudiaethau, o ran yr astudio ei hun ac ar gyfer asesiadau.

45 Roedd hi'n amlwg drwy gydol y broses adolygu, ac yn y dogfennau a ddarparwyd, bod yr iaith Gymraeg yn cael ei meithrin a'i hymwreiddio yn rhan o fywyd pob dydd y Brifysgol ac yn deillio o lefel uwch o ymrwymiad strategol. Trwy gydol yr adolygiad, bu'r staff a'r myfyrwyr, p'un a oeddent yn Gymry Cymraeg ai peidio, yn siarad yn gadarnhaol iawn am eu profiadau o astudio a gweithio mewn sefydliad sydd, ym marn y tîm adolygu, yn sefydliad gwirioneddol ddwyieithog. Mae'n amlwg fod ei dwyieithrwydd yn hynod fanteisiol i'r Brifysgol ac yn cael dim ond effaith bositif ar brofiadau ei staff a'i myfyrwyr. O ganlyniad, mae'r tîm adolygu'n **canmol** y dwyieithrwydd sydd wedi ymwreiddio'n ddwfn ym mhob agwedd o fywyd y Brifysgol ac sy'n effeithio'n bositif ar brofiad ei myfyrwyr.

## 2.8 Effeithiolrwydd y dull o wella profiad dysgu'r myfyrwyr

46 Mae'n amlwg i'r tîm adolygu fod dull y Brifysgol o wella profiad dysgu ei myfyrwyr yn effeithiol, yn canolbwyntio ar ei myfyrwyr ac yn cael ei arwain gan ei myfyrwyr. Mae'r tîm adolygu'n canmol y Brifysgol mewn dau faes, ac mae'r Brifysgol wedi darparu digonedd o enghreifftiau eraill o welliannau ar lefel y Brifysgol, y colegau, yr ysgolion a'r rhaglenni.

47 Mae'r Brifysgol yn ymwybodol o'r heriau posibl y gallai eu hwynebu o ran materion ariannol ac adnoddau ar gefndir y newidiadau sylweddol ar lefel genedlaethol megis Brexit. Ar sail yr enghreifftiau a roddwyd a'r trafodaethau y mae'r tîm adolygu wedi'u cynnal gyda'r staff a'r myfyrwyr, daeth y tîm adolygu i'r casgliad bod gan y Brifysgol ddull o wella profiad dysgu'r myfyrwyr sy'n hynod effeithiol a systematig.

# 3 Cefnogi gwelliant mewn dysgu ac addysgu

## 3.1 Y dull strategol o gynllunio i'r dyfodol, gan gynnwys y defnydd a wneir o wybodaeth er mwyn pennu blaenoriaethau o ran gwella'r dysgu a'r addysgu, a'r dulliau o'u gweithredu a'u gwerthuso

48 Mae'r Brifysgol yn defnyddio amrywiaeth o ddata'n systematig sy'n cynnwys gwerthusiadau o fodiwlau, adroddiadau arholwyr allanol, adroddiadau gan gyrff proffesiynol, statudol a rheoleiddio, data arolygon myfyrwyr, ac Adroddiadau Asesu ar Ansawdd Arholiadau Prifysgol [Assessment Reports on the Quality of University Examinations] (ARQUE). Trafodir y rhain i gyd ac yna cânt eu bwydo i mewn i Gynlluniau Adolygu a Datblygu Blynyddol i helpu'r Brifysgol i hysbysu ei blaenoriaethau. Mae'r Brifysgol wedi canolbwyntio ar ei pherfformiad, a'i gwella, mewn ystod o fetrigau sy'n cynnwys boddhad, cadwraeth, cyflogadwyedd a chyrhaeddiad y myfyrwyr. O ganlyniad i ffocws y gwaith yma, mae'r Brifysgol wedi llwyddo i ennill Gwobr Aur y Fframwaith Rhagoriaeth Addysgu. Cyfarfu'r tîm ag amrywiaeth o staff o bob rhan o'r Brifysgol oedd oll yn cadarnhau bod y Brifysgol yn defnyddio gwybodaeth o amrywiaeth eang o ffynonellau data i'w helpu i werthuso eu gwaith ac i hysbysu ei meddwl strategol a'i chynllunio i'r dyfodol fel bod y Brifysgol yn mabwysiadu dull o bennu meysydd i'w gwella sydd wedi'i seilio ar dystiolaeth.

49 Mae nifer o strategaethau'n disgrifio dull strategol y Brifysgol o gynllunio ar gyfer y dyfodol, gan gynnwys defnyddio gwybodaeth i bennu blaenoriaethau wedi'u llunio i wella'r dysgu a'r addysgu, a'i dulliau o'u gweithredu a'u gwerthuso, gyda chyfranogaeth gan fyfyrwyr, yn benodol yn y Strategaeth Addysgu a Dysgu dan Arweiniad Myfyrwyr. Mae Deoniaid y Colegau'n cymryd rhan yn y rownd Gynllunio Flynyddol felly mae disgyblaethau astudio'n hysbysu penderfyniadau strategol pwysig. Mae'r Brifysgol yn defnyddio meincnodau'r sector i ganfod meysydd o berfformiad gwael ac ymdrin â nhw. Mae'r tîm adolygu o'r farn bod defnyddio ffynhonnell mor eang o yrwyr strategol wedi bod yn ddefnyddiol i annog cyfranogaeth gan y staff a'r myfyrwyr ac mae wedi golygu bod y Brifysgol wedi cyflawni'n rhagorol mewn nifer o feincnodau addysg uwch.

## 3.2 Y dulliau o reoli newidiadau mewn dulliau o ddysgu ac addysgu

50 Canfu'r tîm adolygu bod y Brifysgol yn defnyddio dull ar sail tystiolaeth i ganfod newidiadau mewn dulliau o ddysgu ac addysgu sy'n ddibynnol ar fetrigau allweddol fel y trafodwyd uchod. Mae'r Brifysgol wedi ceisio gweithredu newidiadau drwy osod themâu gwelliant ar sail y data am y sefydliad. Mae ymgysylltu gyda'r corff myfyrwyr, yn arbennig drwy'r Strategaeth Addysgu a Dysgu dan Arweiniad Myfyrwyr, wedi bod yn ganolog i hynny.

51 Mae'r Brifysgol hefyd wedi mabwysiadu dull ar sail tystiolaeth gan ddefnyddio ystod o ddangosyddion perfformiad allweddol lle gellir canfod arferion gorau ac ymdrin â meysydd sy'n achosi pryder. Mae'r Brifysgol hefyd yn aseinio aelod o staff ei Chanolfan Gwella Addysgu a Dysgu i bob thema gwelliant er mwyn galluogi i academyddion arwain y fenter a gyrru newid.

52 Mae'r Strategaeth Addysgu a Dysgu dan Arweiniad Myfyrwyr yn nodi nifer o themâu allweddol y mae'r Brifysgol yn ymdrin â nhw, gan gynnwys asesiadau ac adborth sydd wedi cynhyrchu data am foddhad y myfyrwyr sy'n rhagori'n sylweddol ar y meincnod ar gyfer y sector ac sydd ymysg y gorau yn y DU.

53 Maes arall lle mae'r Brifysgol wedi gweld datblygiad da mewn rheoli newidiadau yw 'Dal Gafael ar Fyfyrwyr'. Mae ganddi ystod o fentrau i dargedu rhaglenni penodol a oedd yn gwyro oddi wrth weddill y sector o ran eu cyfraddau cadwraeth, ac wrth ddatblygu cynlluniau gweithredu. Roedd trydydd maes i ganolbwyntio arno'n cynnwys Deilliannau Myfyrwyr oedd yn edrych yn benodol ar faterion yn ymwneud ag ansawdd yr addysgu a dibynadwyedd y prosesau asesu. Roedd y maes terfynol yn ymwneud â 'Datblygu Cwricwlwm' lle'r oedd y Brifysgol wedi cyflwyno Proses newydd o Gymeradwyo Rhaglenni sy'n canolbwyntio ar y rhanddeiliaid.

54 Mae'r tîm adolygu o'r farn bod y Brifysgol wedi bod yn effeithiol mewn nifer o ffyrdd fel y gwelir o'i chanlyniadau. Nododd y tîm nad yw'r holl themâu gwelliant wedi'u cynnwys yn llawn eto am fod y gwaith ar gadwraeth yn dal i fynd yn ei flaen, ond mae hanes y Brifysgol o gyflawni ei blaenoriaethau o ran gwelliant yn y gorffennol yn gwneud i'r tîm deimlo'n hyderus bod ei dull o sicrhau gwelliant yn effeithiol.

## 3.3 Y dulliau o gefnogi arloesi, a chanfod a rhannu arferion da

55 Mae'r Brifysgol wedi'i hymrwymo i wella ansawdd profiad dysgu'r myfyrwyr drwy feithrin diwylliant sefydliadol o gydnabod a gwobrwyo rhagoriaeth mewn addysgu. Mae'n gwneud hyn mewn nifer o ffyrdd megis drwy seminarau hyfforddi staff sy'n cyflwyno syniadau ar sail tystiolaeth mewn addysgu gweithdai, arsylwi addysgu gan gymheiriaid, a'r gynhadledd staff flynyddol. Mae'r gweithdai hyn yn tystio bod staff yn cymryd rhan mewn datblygiad proffesiynol parhaus sy'n hysbysu ceisiadau am Gymrodoriaethau'r Academi Addysg Uwch. Ar lefel strategol, mae cydnabyddiaeth i Gymrodoriaethau'n cael ei chynnwys mewn adolygiadau o ddatblygiad proffesiynol staff ac yn faen prawf ar gyfer ceisiadau am ddyrchafiad a arweinir gan addysgu. Mae'r Brifysgol yn cynnig Tystysgrif Addysgu mewn Addysg Uwch i Raddedigion i'r holl staff academaidd sydd ar gontract. Mae hefyd yn cynnig datblygiad proffesiynol i athrawon drwy gydol eu gyrfaoedd, wedi'i gysylltu ag achrediad, sy'n rhan o'r fframwaith dyrchafu. Mae'r cyfleoedd hyn ar gael hefyd i staff mewn canolfannau cydweithredol.

56 Mae CELT yn lledaenu arferion dysgu ac addysgu da drwy ddulliau amrywiol o ymgysylltu sy'n cynnwys cyfarfodydd yn ystod yr awr ginio i gyfnewid gwybodaeth, gweithdai a seminarau i gynhyrchu adnoddau ar-lein, a rhannu taflenni newyddion ac ysbrydoli pobl i'w hysgrifennu. Mae'r Brifysgol yn cynnal cynhadledd CELT bob blwyddyn sy'n dathlu arferion addysgu da ar draws y Brifysgol. Mae hefyd yn defnyddio trefnau arsylwi addysgu gan gymheiriaid i gyfrannu tuag at rannu arferion da. Rhennir arferion da drwy strwythur llywodraethu'r Brifysgol ar lefel ysgol neu goleg. Mae hefyd gyfleoedd i rannu arferion gorau yn Grŵp Tasg Addysgu a Dysgu'r Brifysgol. Canfu'r tîm adolygu bod arloesi'n nodwedd allweddol o'r Strategaeth Dysgu ac Addysgu, er enghraifft, yn y cwricwlwm Seicoleg lle cynigiwyd dulliau newydd o gynllunio'r cwricwlwm, a hefyd ym maes cymorth myfyrwyr, drwy ddadansoddi data am ddysgwyr.

57 Mae'r Brifysgol yn hybu rhagoriaeth mewn addysgu drwy gynlluniau sefydliadol a chenedlaethol ar gyfer rhagoriaeth addysgu. Hefyd, mae'r Brifysgol wedi llwyddo i ennill tri bid ar gyfer prosiectau a ariennir gan yr Academi Addysg Uwch yn ystod y blynyddoedd diwethaf, i gydnabod y datblygiad athrawon a'r datblygiad proffesiynol parhaus y mae'n eu cynnig. Mae wedi defnyddio ariannu i ddatblygu system ar-lein i Adolygu Cynnydd Myfyrwyr Ôl-raddedig, ac i dreialu'n llwyddiannus y syniad o symud y cyfnod o ail-sefyll arholiadau o fis Awst i fis Gorffennaf i atal myfyrwyr rhag colli diddordeb yn ystod y gwyliau haf.

58 Mae'r tîm adolygu'n cadarnhau bod llwyddiannau'r Brifysgol o ran canfod a rhannu arferion gorau'n tynnu sylw at ei chefnogaeth a'i hymrwymiad i ddatblygu arferion addysgu ei staff er mwyn gwella profiad y myfyrwyr.

## 3.4 Cefnogi a datblygu staff ac ymgysylltu â nhw

59 Clywodd y tîm adolygu bod y Brifysgol yn cynnig amrywiaeth eang o gyfleoedd i ddatblygu a chefnogi ei staff. Mae'r Brifysgol yn darparu amgylchedd teg a chynhwysol i'w staff cyflogedig i gyd lle mae'r gwaith addysgu a'r gwaith ymchwil yn cael eu trin gyda'r un parch. Canfu'r tîm bod y Brifysgol yn ymgynghori'n weithredol wrth ddatblygu strategaethau sy'n cefnogi a datblygu staff. Mae'r Brifysgol yn gweithredu cynllun datblygiad proffesiynol y mae'r holl staff yn cyfranogi ynddo, ac sydd hefyd yn ei galluogi i ganfod a rhannu arferion da. Er mwyn cefnogi datblygiad gyrfaoedd academaidd, mae'r Brifysgol wedi symleiddio'r meini prawf ar gyfer cael dyrchafiad, ac mae wedi cyflwyno Fframwaith Athrawol sydd wedi gwneud y meini prawf hynny'n fwy eglur ac wedi annog mwy o staff i wneud cais am ddyrchafiad.

Mae gan y Brifysgol Raglen Datblygiad Staff i'w staff academaidd a'i staff proffesiynol, ac mae wedi lansio polisi hyfforddi a mentora. Mae gwefan 'Datblygu Ymchwilwyr' hefyd yn darparu gwybodaeth am gyfleoedd datblygu staff a chyngor gyrfaoedd. Canfu'r tîm ymrwymiad gwirioneddol i'r iaith Gymraeg ar draws y Brifysgol lle cynigir y cyfle i'r holl staff a myfyrwyr ddysgu Cymraeg a gwella eu sgiliau Cymraeg.

### 3.5 Effeithiolrwydd y dulliau o weithredu strategaethau sefydliadol a gwella'r dysgu a'r addysgu

60 Canfu'r tîm adolygu bod y Brifysgol, er gwaethaf y newidiadau ar draws y sector addysg uwch, yn parhau i weithredu ei strategaethau sefydliadol yn effeithiol, gan gynnal ei safonau academaidd. Cyflawnwyd hyn drwy ddulliau cydweithredol newydd o gynllunio cwricwla, ystod o wasanaethau cymorth myfyrwyr, gweithgareddau i ymgysylltu a gweithio mewn partneriaeth â'r myfyrwyr, a nifer fawr o brosiectau gwella. Er bod y tîm wedi canfod nad yw pob un o'r prosiectau a'r dulliau newydd wedi ymwreiddio'n llawn, mae'n hyderus bod gan ei dull o sicrhau gwelliant yn effeithiol hanes da o wella'r dysgu a'r addysgu.

# 4 Prosesau yn ymwneud ag ansawdd a safonau academaidd

## 4.1 Nodweddion allweddol dulliau'r darparwr o reoli ansawdd a'r ffordd y mae'r myfyrwyr yn cyfranogi yn y gwaith o reoli ansawdd y cyfleoedd dysgu

61 Mae dull y Brifysgol o reoli profiad dysgu'r myfyrwyr yn aml haenog ac yn amlblwyfol, ac mae'n ceisio cynnwys y myfyrwyr a staff ar bob lefel. Mae'r fframwaith rheoleiddio'n rhagnodi strwythurau clir o gyfrifoldeb ac atebolrwydd, ynghyd â gweithdrefnau manwl ar gyfer rheoli ansawdd. Mae'r rhain wedi'u disgrifio yn y Rheoliadau, y Codau Ymarfer, ac yn y Gweithdrefnau a'r Canllawiau. Mae'r myfyrwyr wedi'u cynrychioli ar bob lefel o'r trafodaethau a'r broses o wneud penderfyniadau, o aelodaeth y Byrddau Astudiaethau yn yr ysgolion unigol i aelodaeth y Cyngor. Mae'r myfyrwyr yn chwarae rolau gweithredol yn y gwaith o lunio polisïau dysgu ac addysgu, ac o fonitro eu gweithrediad ar lefel y sefydliad a'r ysgolion. Mae myfyrwyr yn mynychu nifer ac amrywiaeth sylweddol o bwyllgorau a grwpiau tasg, ond mae swyddogion Undeb y Myfyrwyr, sy'n aelodau o grwpiau tasg ar lefel y Brifysgol a'r Cyngor, a'r cynrychiolwyr myfyrwyr sy'n aelodau o bwyllgorau a phanelau'r colegau a'r ysgolion, yn cytuno bod y lefelau yma o gynrychiolaeth yn ymarferol ac yn effeithiol. Mae'r cadarnhadau yma, ynghyd â thystiolaeth arall sy'n dangos cyfraniadau gan y myfyrwyr sydd wedi'u hadrodd arnynt isod, yn ategu'r ganmoliaeth sydd wedi'i disgrifio ym mharagraff 72.

62 Mae gan y Brifysgol rwydwaith ar draws y sefydliad o bwyllgorau a grwpiau tasg, a gefnogir gan y staff ar bob lefel, i hwyluso rhyngweithio a rhannu'r cyfrifoldeb am reoli ansawdd a safonau rhwng academyddion, staff proffesiynol a myfyrwyr. Mae'r cyfrifoldeb ffurfiol am ansawdd a safonau yn gorwedd gyda'r Senedd, sy'n adrodd i'r Cyngor. Mae'r Senedd yn dirprwyo'r gwaith o oruchwylio datblygiad y strategaeth addysg i'r Grŵp Tasg Addysgu a Dysgu. Dirprwyir y cyfrifoldeb am fonitro gweithrediad manwl y gweithdrefnau a rheoliadau academaidd i'r Grŵp Tasg Sicrhau Ansawdd a Dilysu. Mae'r ddau grŵp tasg yma'n cael eu cadeirio gan y Dirprwy Is-Ganghellor (Dysgu ac Addysgu), gyda chefnogaeth weithredol yr Uned Sicrhau Ansawdd a Dilysu. Mae cofnodion y ddau grŵp tasg yma'n cynnwys tystiolaeth sy'n dangos bod ansawdd y dysgu a'r addysgu'n cael ei oruchwylio'n ofalus. Mae'r strwythurau a'r rolau ar lefel y Brifysgol wedi'u hadlewyrchu yn y colegau a'r ysgolion academaidd unigol, lle mae Cyfarwyddwyr Dysgu ac Addysgu a Byrddau Astudiaethau'n monitro ansawdd a safonau ac yn sicrhau bod polisïau'r Brifysgol yn cael eu gweithredu.

63 Yn sylfaenol i'r rheolaeth ar ansawdd yr addysgu a phrofiad dysgu'r myfyrwyr mae gweithdrefnau'r Brifysgol ar gyfer monitro modiwlau a rhaglenni gradd yn flynyddol, a'r Archwiliadau Ansawdd Mewnol o'r ysgolion bob chwe blynedd. Mae'r myfyrwyr yn cyfrannu at brosesau monitro blynyddol drwy gwblhau gwerthusiadau ar-lein o fodiwlau a rhaglenni, drwy gymryd rhan mewn cyfarfodydd carfanau'r modiwlau a grwpiau ffocws, a thrwy eu cynrychiolaeth ar Bwyllgorau Cyswllt Staff-Myfyrwyr. Mae'r Archwiliadau Ansawdd Mewnol cyfnodol yn cymryd i ystyriaeth gyflwyniad ffurfiol gan y myfyrwyr, ac mae Llywydd Undeb y Myfyrwyr yn aelod o banel yr Archwiliad Ansawdd Mewnol. Mae gofyn i'r ysgolion ymateb i adroddiadau'r Archwiliadau Ansawdd Mewnol a'u hargymhellion gyda chynlluniau gweithredu, sydd yn eu tro'n derbyn ystyriaeth mewn Adolygiadau Canol Tymor ar ôl tair blynedd. Mae tystiolaeth i awgrymu bod adolygiadau cyfnodol y Brifysgol o ansawdd profiad dysgu'r myfyrwyr a'r cymorth i'r myfyrwyr wedi symud y tu hwnt i fonitro'r cydymffurfiad â'r gwaith o annog a mynd ar ôl gwelliant ac arloesi systematig. Mae rhaglenni a ddarperir gan bartneriaid yn cael eu hadolygu bob pum mlynedd, ac mae'r partneriaid yn eu tro'n atebol i gael eu hail-gymeradwyo bob pum mlynedd gan ddefnyddio gweithdrefnau sy'n adlewyrchu'r Archwiliadau Ansawdd Mewnol.

## 4.2 Nodweddion allweddol y dulliau o osod, cynnal, adolygu ac asesu safonau academaidd

64 Mae gan y Brifysgol weithdrefnau a rheoliadau cynhwysfawr sy'n sicrhau bod cyrhaeddiad y myfyrwyr yn cael ei asesu'n drwyadl, a bod safonau priodol yn cael eu gweithredu wrth ddyfarnu graddau. Y prif fecanweithiau ar gyfer gosod a gweithredu safonau academaidd yw'r prosesau o gymeradwyo ac ail-ddilysu rhaglenni a modiwlau, y defnydd gofalus a wneir o arholwyr allanol i gadarnhau bod pwyntiau cyfeirio allanol yn cael eu gweithredu, a'r broses flynyddol o fonitro'r marciau a enillir gan y myfyrwyr. Yn ogystal, o 2016-17 ymlaen, mae'r Brifysgol wedi datblygu a gweithredu Fframwaith Asesu newydd ar lefel sefydliadol, ac mae tystiolaeth sy'n dangos bod hyn wedi arwain at fwy o gysondeb yn y ffordd y gwneir yr asesiadau ar draws y Brifysgol. Mae'r tîm adolygu'n **cadarnhau** gweithrediad y Fframwaith Asesu i sicrhau bod dulliau asesu'n cael eu gweithredu'n gyson.

65 Barnwyd bod y prosesau cymeradwyo rhaglenni'n briodol yn adolygiad QAA yn 2012, ond maent wedi cael eu cryfhau ymhellach o 2017-18 ymlaen ar ôl mabwysiadu Cod Ymarfer newydd ar gyfer Cymeradwyo, Monitro ac Adolygu Rhaglenni. Mae'r trefnau cymeradwyo adolygedig yn defnyddio arbenigwyr pwnc allanol ac yn ymgynghori â rhanddeiliaid allanol megis cyrff proffesiynol, statudol a rheoleiddio, a chyflogwyr, yn fuan yn y broses ac yn barhaol drwy gydol y broses. Maent hefyd wedi cynyddu cyfranogaeth myfyrwyr yn y gwaith o gynllunio modiwlau a rhaglenni. Mae cynghorwyr myfyrwyr hyfforddedig yn helpu i baratoi disgrifiadau modiwlau a rhaglenni, a cheir beirniadaethau cymeradwyo terfynol gan Grwpiau Cymeradwyo Rhaglenni a Modiwlau newydd sy'n cynnwys aseswr myfyrwyr profiadol.

66 Mae'r Brifysgol yn gwneud dadansoddiad ystadegol o farciau'r myfyrwyr yn flynyddol er mwyn cymharu cyrhaeddiad y myfyrwyr ar draws yr holl fodiwlau a'r holl raglenni ac i gymharu perfformiad y myfyrwyr yn y Brifysgol gyda'r sector cyfan ar lefel genedlaethol. Mae'r Adroddiadau Asesu ar Ansawdd Arholiadau Prifysgol (ARQUE) yn pennu effeithiau'r cynlluniau gradd a thueddiadau ynddynt dros amser. Mae pob ysgol yn derbyn adroddiad ARQUE ystadegol blynyddol am yr holl fodiwlau perthnasol, ac mae Bwrdd Astudiaethau'r Ysgol yn archwilio ac yn ymateb i'r adroddiad hwn mewn cydweithrediad ag arholwyr allanol lle bo raid. Mae'r adroddiadau hyn yn caniatáu diagnosis o unrhyw broblemau ar lefel modiwl neu raglen sydd wedyn yn derbyn sylw mewn Cynlluniau Adolygu a Datblygu Blynyddol. Yn ogystal, mae'r Brifysgol wedi dangos ei bod yn ymateb yn briodol i unrhyw broblemau y cyfeirir atynt mewn adroddiadau gan arholwyr allanol, mae'n ymateb iddynt yn briodol, gan roi adroddiad i'r Grŵp Tasg Sicrhau Ansawdd a Dilysu ar y camau a gymerwyd. Ar sail y dystiolaeth a welwyd ac a glywyd gan y tîm adolygu, daeth i'r casgliad bod y safonau academaidd y mae'r Brifysgol yn eu gosod ar gyfer cyrhaeddiad myfyrwyr yn drwyadl ac yn gyson â'r meincnodau perthnasol a'r fframweithiau cymwysterau perthnasol ar lefel genedlaethol.

## 4.3 Y defnydd a wneir o bwyntiau cyfeirio allanol mewn prosesau ansawdd

67 Mae gan y Brifysgol reoliadau academaidd, codau ymarfer a threfnau gweinyddu arferol sy'n sicrhau bod y rhaglenni gradd y mae'n eu darparu a'r dyfarniadau y mae'n eu rhoi'n gyson â'r pwyntiau cyfeirio academaidd allanol cyfredol, y gofynion statudol a'r canllawiau arferion da sy'n berthnasol i addysg uwch yn y DU. Mae'r Brifysgol yn dilyn y gofynion academaidd rheoleiddiol sylfaenol sydd i'w gweld yn y Fframwaith Asesu Ansawdd ar gyfer Cymru ac yn Rhan 1 y Safonau a Chanllawiau ar gyfer Sicrhau Ansawdd yn Ardal Addysg Uwch Ewrop (ESG) ac, er mwyn ei sicrhad ei hun, mae wedi mapio ei rheoliadau a'i gweithdrefnau yn erbyn y rhain.

68 Mae'r Brifysgol yn rhagweithiol yn y ffordd y mae hi'n sicrhau bod ei rheolaeth ansawdd a safonau'n parhau'n gyfatebol gyda'r newidiadau yn y gofynion rheoleiddiol a'r canllawiau perthnasol. Mae'r Uned Sicrhau Ansawdd a Dilysu'n monitro unrhyw newidiadau yn yr amgylchedd rheoleiddiol, yn rhoi gwybod amdanynt i'r colegau, yr ysgolion a'r adrannau gwasanaeth, ac yn gwirio cydymffurfiad wedyn. Yn 2016-17, gwnaeth y Gofrestrfa Academaidd adolygiad cynhwysfawr

ac ymarfer mapio o reolau, rheoliadau a gweithdrefnau'r Brifysgol yn erbyn yr holl ddisgwyliadau a dangosyddion addysg uwch. Mae'r tîm adolygu wedi defnyddio'r tablau mapio manwl sydd wedi'u cynnwys yn Adroddiad Newidiadau'r Brifysgol i wirio a ydyw wedi bodloni'r gofynion rheoleiddiol, ac i ba raddau y mae wedi'u bodloni, ac wedi holi ei staff a'i myfyrwyr am y ffyrdd y gweithredir y pwyntiau cyfeirio allanol perthnasol a'r canllawiau perthnasol. Mae gan y Brifysgol reolau a gweithdrefnau priodol, ac mae'r rhain yn cael eu gweithredu a'u diweddaru'n weithredol ac yn gydwybodol.

### 4.4 Sylwadau ar y camau a gymerwyd ers yr adolygiad blaenorol a phennu materion sy'n codi o'r Pecyn Gwybodaeth Ymlaen Llaw nad ydynt yn cael eu harchwilio fel arall

69 Yn 2012, barnodd Adolygiad Sefydliadol QAA bod ganddo 'hyder' yn rheolaeth bresennol y Brifysgol a'i rheolaeth debygol yn y dyfodol ar ei safonau academaidd ac ar ansawdd y cyfleoedd dysgu sydd ar gael i'w myfyrwyr. Yn ogystal, roedd yr adroddiad yn cynnwys pum argymhelliad 'byddai'n fuddiol' a chwe argymhelliad 'byddai'n fanteisiol'. Yn 2015, adroddodd tîm QAA mewn Ymgysylltiad Canol Proses sy'n Canolbwyntio ar y Myfyriwr bod Prifysgol Bangor wedi dod yn ei blaen yn dda yn ei gwaith o ymdrin ag argymhellion yr adolygiad a gafwyd yn 2012. Roedd y Brifysgol wedi ymateb i'r argymhellion gyda chynllun gweithredu o dan oruchwyliaeth Grŵp Tasg Adolygiad Sefydliadol a oedd yn monitro ei weithrediad. Mae tîm yr adolygiad cyfredol o'r farn bod ei hymatebion wedi mwy na chyflawni'r argymhellion penodol a wnaed yn 2012 ac y gellir eu deall fel rhan o'r patrwm parhaus o arloesi a gwella sydd wedi'u disgrifio mewn rhannau eraill o'r adroddiad hwn. Mae'r newidiadau wedi cynnwys: cryfhau atebolrwydd grwpiau tasg allweddol i'r Senedd; cynyddu cyfranogaeth y myfyrwyr a phobl allanol mewn prosesau o gymeradwyo ac ail-ddilysu rhaglenni; rhoi ymatebion yn barhaus ac yn systematig i Ddatganiadau Meincnodi Pwnc perthnasol; sicrhau lefel uwch o gysondeb a chywirdeb yng nghynnwys y Llawlyfrau Myfyrwyr ar-lein, yr wybodaeth gyhoeddedig a'r gwefannau; a chyfranogaeth gynharach ac uwch y myfyrwyr yn y broses o ddatblygu'r cwricwlwm.

### 4.5 Y dull o ddefnyddio data i hysbysu prosesau gwneud penderfyniadau a gwerthuso

70 Disgrifiodd y Brifysgol ei hun i'r tîm adolygu fel Prifysgol sy'n meddu ar lawer o ddata ar sail tystiolaeth ac sy'n defnyddio amrywiaeth eang o wybodaeth i fonitro canlyniadau ac i ddewis meysydd i'w datblygu a'u gwella. Canfu'r tîm adolygu esiamplau niferus oedd yn dangos bod data'n cael ei gasglu a'i ddefnyddio'n systematig i gynllunio a chyflawni gwelliannau ac esiamplau oedd yn cysylltu casgliad y data gyda chyflawni gwelliannau mesuradwy. Defnyddiwyd data'n effeithiol yn bennaf mewn tri phrif faes: i fonitro a rheoli ansawdd y dysgu a'r addysgu; i ganfod ymhle mae myfyrwyr unigol yn wynebu anawsterau academaidd neu anawsterau eraill ac i ymyrryd a'u helpu'n effeithiol; ac i ddarganfod cyfleoedd i wneud gwasanaethau gweinyddol a gwasanaethau cymorth myfyrwyr yn fwy effeithlon.

71 Hysbysir y broses flynyddol o fonitro ansawdd ac effeithiolrwydd yr addysgu gan ddata'r adroddiadau ARQUE am gyrhaeddiad y myfyrwyr, adroddiadau gan arholwyr allanol ac adroddiadau am yr holiaduron ar-lein ar gyfer gwerthuso modiwlau a gwblheir gan fyfyrwyr. Mae'r cyfraddau ymateb i'r gwerthusiadau modiwl yn dda o'u cymharu â safonau'r sector ac maent yn defnyddio cyfres gyffredin o gwestiynau cymharu modiwlau a rhaglenni dros amser, ac yn galluogi i aelodau unigol o'r staff addysgu dderbyn adborth ar eu harferion addysgu eu hunain. Er bod gwerthusiadau o fodiwlau yn arfer cyffredin ar draws y sector, gwelodd a chlywodd y tîm adolygu dystiolaeth o'r defnydd effeithiol a wneir ohonynt i lunio a monitro cynlluniau gweithredu ar lefel rhaglen ac ysgol. Yn cyflenwi'r cynlluniau gweithredu ar gyfer rhaglenni mae dadansoddiadau dan arweiniad myfyrwyr o ddata'r Arolwg Myfyrwyr Cenedlaethol (AMC) mewn cynadleddau Cynlluniau Gweithredu blynyddol sy'n defnyddio'r data i bennu blaenoriaethau'r adrannau o ran addysgu ar gyfer y flwyddyn nesaf. Mae'r canlyniadau wedi cynnwys newidiadau i batrymau asesiadau, cyflwyno rhagor o weithgareddau allgwricwlaidd, a newidiadau i ddulliau

addysgu. Mae'r gwahanol ffyrdd yma o ddefnyddio data wedi'u cysylltu gyda chynnydd yn y sgôr boddhad cyffredinol yn yr AMC, sydd wedi cynyddu o 84% (75ain yn y DU) yn 2012-13 i 91% (ymysg y deg gorau yn y DU, a'r uchaf yng Nghymru) yn 2016-17.

72 Mae'r Brifysgol wedi datblygu system fewnol o ddadansoddi data am ddysgwyr sydd ar gael ar y porth myfyrwyr 'fyMangor'. Cyfarfu'r tîm adolygu â thîm yr Uned Rhaglenni Myfyrwyr a Dysgu sydd wedi datblygu'r meddalwedd a gallai weld sut roedd y system yn cael ei defnyddio'n gynyddol gan y staff a'r myfyrwyr. Er enghraifft, mae'r data wedi dangos cydberthyniad cryf rhwng diffyg ymgysylltiad y myfyrwyr yn wythnosau cyntaf y cwrs a marciau is neu fethiant. Mae'r tiwtoriaid a'r Uned Ennyn Diddordeb Myfyrwyr yn defnyddio'r dadansoddiadau o ddata am ddysgwyr i ymgysylltu a gweithio â myfyrwyr sydd heb ymgysylltu'n ddigonol yn eu rhaglenni a llwyddodd hyn i wella cyfraddau cadwraeth myfyrwyr yn sylweddol o hyd at 40 y cant mewn rhai ysgolion. Yn ogystal â'r dadansoddiadau o ddata am ddysgwyr, mae'r porth 'fyMangor' yn gadael i staff academaidd weld amrywiaeth o wybodaeth a dadansoddiadau sy'n ddefnyddiol wrth gyfarfod â myfyrwyr unigol: eu graddau a'u marciau dosbarth ar gyfartaledd, cofnodion presenoldeb, Cynlluniau Cefnogi Dysgu Personol, hanes eu ceisiadau am estyniad, ac amserlenni'r myfyrwyr. Mae'r porth 'fyMangor' hefyd yn caniatáu i fyfyrwyr weld llawer o'r data hwn, yn ogystal â llawlyfrau, marciau ac adborth. Mae'r system yn galluogi i fyfyrwyr wneud ceisiadau ar-lein am estyniad, ail-sefyll arholiadau, newidiadau i'w modiwlau a'u rhaglenni, ac i gyflwyno gweithgareddau ar gyfer Gwobr Cyflogadwyedd Bangor a'r Adroddiad Cyrhaeddiad Addysg Uwch. Canfu'r tîm adolygu dystiolaeth gref gan y myfyrwyr a'r staff bod y system ar-lein o ddadansoddi data am ddysgwyr, ynghyd â'r defnydd a wneir o'r gwasanaethau ar-lein sydd ar gael ar y porth 'fyMangor', yn gwneud cyfraniadau mesuradwy at berfformiad, cyfranogaeth a chadwraeth y myfyrwyr, yn ogystal ag at effeithiolrwydd cyffredinol y prosesau o weinyddu myfyrwyr a chyrsiau. Mae'r tîm adolygu'n **canmol** y ffordd y cesglir ac y defnyddir y data am berfformiad a chyfranogaeth y myfyrwyr yn systematig i hysbysu a gwella cymorth i fyfyrwyr a hybu eu cynnydd academaidd.

73 Mae'r Brifysgol yn defnyddio data i gynyddu amrywiaeth ac effeithiolrwydd gwasanaethau'r myfyrwyr ac i symleiddio prosesau gweinyddol megis recriwtio, derbyn a chofrestru myfyrwyr, marcio cwestiynau amlddewis, rheoli gweithgareddau i hybu cyflogadwyedd myfyrwyr, prosesu holiaduron modiwl ac arolygon eraill, a monitro a chefnogi myfyrwyr ymchwil. Mae adrannau Gwasanaethau Myfyrwyr Prifysgol Bangor yn defnyddio data'n systematig i fonitro prosesau, i fesur canlyniadau ac i'w cymharu â'r sector addysg uwch ehangach. Mae'r ffynonellau data hyn yn cynnwys mesuriad o faint o fyfyrwyr sy'n dewis cymryd cyrsiau, eu hymatebion a'u gwerthusiadau, a chânt eu dadansoddi yng nghyd-destun meincnodau allanol, data'r arolwg DLHE, data am gadwraeth myfyrwyr, data'r AMC, a data prifysgolion eraill. Mae darpariaethau'r Gwasanaethau Myfyrwyr yn cael eu harfarnu'n rheolaidd ar gyfer Gwobr y Safon Ansawdd Matrics, sef safon ansawdd y DU ar gyfer gwasanaethau gwybodaeth, cyngor ac arweiniad. Yn ei hasesiad mwyaf diweddar ar gyfer y Safon Ansawdd Matrics (Tachwedd 2016), roedd yr adroddiad yn canmol y ffordd hynod effeithiol y mae'n hyrwyddo ei gwasanaethau i'r myfyrwyr, y diwylliant sy'n canolbwyntio ar y myfyriwr i deilwra cymorth i anghenion yr unigolyn, a'r ymrwymiad i wella'r gwasanaethau mewn ymateb i adborth gan fyfyrwyr a phartneriaid.

### 4.6 Effeithiolrwydd y defnydd a wneir o'r dulliau sicrhau ansawdd i wella'r dysgu a'r addysgu

74 Mae gweithdrefnau a phrosesau'r Brifysgol ar gyfer rheoli ansawdd wedi derbyn beirniadaeth o 'hyder' ymhob un o'r adolygiadau QAA blaenorol. Mae'r Brifysgol yn parhau i fod â phrosesau a threfniadau cadarn ac effeithiol ar gyfer rheoli ansawdd. Un cryfder arbennig yw'r ymrwymiad i wella ansawdd yn barhaus sydd wedi'i adlewyrchu yn yr adolygiadau a'r gwelliannau diweddar yn y gweithdrefnau ar gyfer monitro rhaglenni'n flynyddol, eu hadolygu'n gyfnodol a'u hail-ddilysu. Mae'r rhain wedi cryfhau, diolch i'r defnydd cynyddol o ffynonellau data soffistigedig, yn arbennig data cymharol am gyrhaeddiad a chyfranogaeth y myfyrwyr, cynnydd mewn craffu allanol a gan gyflogwyr, a chyfranogaeth effeithiol gan gynrychiolwyr

myfyrwyr hyfforddedig. Cadarnhawyd bod y dulliau o reoli ansawdd yn effeithiol gan y cynnydd arwyddocaol yn sgorau'r AMC dros y pedair blynedd diwethaf a gan welliannau mesuradwy yng nghyfraddau cadwraeth a chyrhaeddiad y myfyrwyr.

## 4.7 Effeithiolrwydd y trefniadau ar gyfer sicrhau safonau academaidd

75 Mae adran 4.2 yn crynhoi'r rheoliadau a'r gweithdrefnau y mae'r Brifysgol yn eu defnyddio i osod a chynnal safonau ei dyfarniadau. Elfennau craidd ei phrosesau o reoli safonau yw ymlyniad at fframweithiau cymwysterau perthnasol a chanllawiau academaidd cenedlaethol a rhyngwladol, defnyddio cyngor allanol, proffesiynol a chyngor cyflogwyr wrth gynllunio ac adolygu rhaglenni gradd, a'r defnydd trwyadl o bobl allanol wrth arholi ac asesu myfyrwyr. Mae'r Brifysgol yn adolygu'n rheolaidd y ffordd y mae'n mapio ei gweithdrefnau ei hun yn erbyn pwyntiau cyfeirio allanol perthnasol a chodau arferion gorau perthnasol.

76 Darparodd y Brifysgol archwiliad manwl o'r rhesymau pam fod tariffau mynediad Prifysgol Bangor yn uwch na'r canolrif ar gyfer y sector ond bod y gyfran o raddau da (1sf/2:1) a ddyfarnodd yn is na'r canolrif ar gyfer y sector yn y blynyddoedd academaidd 2014-15 a 2015-16. Roedd yr esboniadau a archwiliwyd yn cynnwys y rhwystrau i gyflawniad a dysgu'r myfyrwyr, dulliau asesu oedd yn amhriodol o bosibl, a'r diwylliannau marcio mewn rhai o'r meysydd astudio neu ysgolion. Mae'r tîm adolygu'n cytuno gyda chasgliad y Brifysgol mai'r achos sylfaenol yw diwylliant o farcio llymach mewn rhai ysgolion ac nid gwendidau yn yr addysgu neu'r cymorth dysgu i fyfyrwyr. Mae'r tîm adolygu'n croesawu'r ffaith bod adroddiadau'r arholwyr allanol yn arbennig o bositif yn eu cefnogaeth i'w safonau ac i gadernid ei dulliau asesu. Mae'n ffaith nodedig bod y gyfran o raddau da a ddyfarnwyd ar draws y Brifysgol wedi cynyddu i 69% ers iddi ddechrau ymdrin yn uniongyrchol â'r rhesymau sylfaenol o dan y data hwn yn 2014-15. Dydy 69% ond ychydig yn is na'r canolrif perthnasol ar gyfer y DU gyfan.

77 Daeth y tîm adolygu i'r casgliad bod y safonau academaidd y mae'r Brifysgol yn eu gosod a'u cynnal ar gyfer cyrhaeddiad myfyrwyr yn drwyadl ac yn gyson â'r meincnodau perthnasol a'r fframweithiau dyfarniadau perthnasol ar lefel genedlaethol.

## 4.8 Effeithiolrwydd dull y darparwr o'i werthuso ei hun, sy'n cynnwys defnyddio data'n effeithiol i hysbysu'r prosesau gwneud penderfyniadau

78 Mae adrannau 4.1 a 4.5 yn crynhoi'r dulliau y mae'r Brifysgol yn eu defnyddio i fonitro, i adolygu a, lle bo raid, i wella ei gweithgareddau. Nodweddion arbennig y dulliau a ddefnyddir yn y Brifysgol yw'r partneriaethau gyda myfyrwyr a'r defnydd systematig a wneir o ddata i reoli'r dysgu a'r addysgu. Un cryfder sylweddol yw cyfranogaeth myfyrwyr fel partneriaid ar bob lefel o'r broses o wneud penderfyniadau a'r gofal a gymerir wrth gasglu ac ymateb i farn y myfyrwyr. Cadarnhaodd y myfyrwyr a gyfarfu â'r tîm adolygu bod newidiadau'n cael eu gwneud mewn ymateb i'w hadborth. Fel sydd wedi'i ddisgrifio yn adran 4.5, mae'r Brifysgol wedi datblygu ffyrdd sy'n gynyddol hygyrch a chynhwysfawr o ddefnyddio data i arloesi ac i fesur canlyniadau. Mae'r rhain yn cynnwys yr adroddiadau ARQUE i werthuso cyrhaeddiad y myfyrwyr, gwerthusiadau o fodiwlau ac arolygon myfyrwyr i gryfhau cynlluniau monitro blynyddol a chynlluniau blynyddol yr ysgolion, dangosyddion perfformiad allweddol i ganfod meysydd o danberfformio, a dulliau o ddadansoddi data am ddysgwyr i fonitro ac i ymateb i gyrhaeddiad a chyfranogaeth y myfyrwyr. Mae'r tîm adolygu'n canmol y defnydd systematig y mae'r Brifysgol yn ei wneud o ddata am ei myfyrwyr i gefnogi ei myfyrwyr (gwelwch baragraff 72).

# 5 Darpariaeth gydweithredol

## 5.1 Nodweddion allweddol dull strategol y darparwr (yn cynnwys gweithgareddau cydweithredol, dysgu ar-lein a dysgu o bell a ddarperir gydag eraill, a dysgu seiliedig ar waith)

79 Mae'r Brifysgol yn ystyried ei darpariaeth gydweithredol yn rhan integrol o'i gweledigaeth o fod yn 'brifysgol lwyddiannus, ryngwladol i Ogledd Cymru'. Er mwyn cyflawni hyn, mae wedi datblygu rhaglenni rhanbarthol a chenedlaethol (gan gynnwys rhaglenni sydd wedi'u llunio i ymdrin â'r materion strategol a nodwyd gan Lywodraeth Cymru, er mwyn ehangu mynediad), rhaglenni mewn meysydd arbenigol sydd o ddiddordeb cyffredin i'r Brifysgol a'i phartneriaid (gan gynnwys gofal iechyd a choedwigaeth, a thrwy Bartneriaethau Hyfforddiant Doethurol), a phartneriaethau rhyngwladol (yn Tsieina, Singapôr ac mewn mannau eraill). Mae'r Brifysgol yn cadw Cofrestr Darpariaeth Gydweithredol gynhwysfawr. Mae ei strategaeth ryngwladol wedi'i gyrru gan yr Is-Ganghellor gyda chefnogaeth weithredol y Cyngor.

## 5.2 Gwybodaeth am faint a natur y ddarpariaeth gydweithredol ac unrhyw gynlluniau i'w newid

80 Yn unol â'r amcanion y mae wedi'u nodi yn ei strategaeth a'i pholisi, mae gan y Brifysgol nifer gyfyngedig o drefniadau cydweithredol sydd wedi'u dewis yn ofalus, gan gynnwys rhai a etifeddwyd gan Brifysgol Cymru. Mae'r ddarpariaeth gyfredol yn cynnwys Partneriaethau Hyfforddiant Doethurol, rhaglenni ar etholfraint, rhaglenni a ddilysir, dyfarniadau deuol a/neu ddyfarniadau dwbl, yn ogystal â threfniadau trosglwyddo, a threfniadau amrywiol ar gyfer lleoliadau i fyfyrwyr, yn y DU a ledled y byd. Mae'n cydweithio'n sylweddol â Grŵp Llandrillo Menai i ddarparu Diplomâu Cenedlaethol Uwch, Graddau Sylfaen a rhaglenni gradd yng Ngogledd a Chanolbarth Cymru sy'n cael eu trin, i bwrpasau ansawdd, fel rhaglenni Prifysgol Bangor, gyda rheolaeth a darpariaethau priodol. Mae'r Ysgol Fusnes yn darparu rhaglenni israddedig mewn Astudiaethau Busnes, Cyfrifiadureg a Thwristiaeth, mewn cydweithrediad â Sefydliad Datblygu Rheolaeth Singapôr yn Singapôr ac yn Wsbecistan. Mae rhaglen Diploma Addysg Uwch yn Bahrain yn caniatáu i fyfyrwyr llwyddiannus drosglwyddo i raglen gradd anrhydedd yn y Brifysgol, ac mae hyn yn bosib hefyd gyda nifer o raglenni penodol mewn sefydliadau yn Tsieina a Malaysia.

81 Mae Coleg Rhyngwladol Bangor, sef menter ar y cyd gyda Grŵp Addysg Ryngwladol Rhydychen, yn darparu rhaglenni blwyddyn sylfaen integredig sydd wedi'u llunio i ehangu mynediad at raglenni gradd Prifysgol Bangor gan bobl o wledydd tramor.

82 Ar hyn o bryd, nid oes gan y Brifysgol gynlluniau wedi'u datblygu'n llawn ar gyfer trefniadau cydweithredol, ond dywedwyd wrth y tîm adolygu bod y Brifysgol yn effro i fanteisio ar gyfleoedd rhyngwladol sy'n codi, a bod Cod Ymarfer newydd ar gyfer Darpariaeth Gydweithredol wedi'i ddatblygu'n ddiweddar i gefnogi unrhyw weithgaredd o'r fath.

## 5.3 Effeithiolrwydd y dull o reoli'r ddarpariaeth gydweithredol gan gynnwys y trefniadau ar gyfer sicrhau safonau academaidd a gwella profiad dysgu'r myfyrwyr

83 Mae pob rhaglen gydweithredol, beth bynnag fo ei dull neu ei model, yn atebol i weithdrefnau safonol Prifysgol Bangor ar gyfer rheoli a sicrhau ansawdd. Mae Grŵp Craffu Partneriaethau Allanol yn monitro'r trefniadau ac yn adrodd yn uniongyrchol i'r Corff Gweithredol. Mae Deoniaid y Colegau'n aelodau o'r Grŵp hwn, gan sicrhau cysylltiad â'r colegau a'r ysgolion.

84 Ar sail yr wybodaeth a ddarparwyd, mae'r tîm adolygu o'r farn bod y prosesau ar gyfer rheoli ansawdd a safonau'r ddarpariaeth gydweithredol yn effeithiol. Yn arbennig, mae'r defnydd a wneir o arholwyr allanol Prifysgol Bangor, a phenodiad safonwyr annibynnol lle bo'n briodol,

y defnydd a wneir o staff Prifysgol Bangor i ddarparu cyrsiau (gan gynnwys darpariaeth dramor), a'r ffaith fod trefniadau hyfforddi staff Prifysgol Bangor ar gael i staff ei phartneriaid, yn sicrhau bod rhaglenni neu fodiwlau'r Brifysgol a ddarperir gan eraill o safon gyffelyb â'r rheiny a ddarperir ym Mhrifysgol Bangor. Gweithredir trefniadau'r Brifysgol ei hun hefyd wrth adolygu rhaglenni, lle bo'n briodol, megis yn achos Coleg Rhyngwladol Bangor sydd, fel ysgolion academaidd, wedi derbyn Archwiliad Ansawdd Mewnol hefyd.

85 Mae'r tîm adolygu o'r farn bod y trefnau ar gyfer sicrhau ansawdd darpariaeth gydweithredol yn effeithiol yn ymarferol am eu bod yn gallu canfod unrhyw wendidau ac ymdrin â nhw. Mae'r tîm adolygu wedi nodi pryderon a fynegwyd gan arholwyr allanol am weithrediad y rhaglenni yn Sefydliad Datblygu Rheolaeth Singapôr yn Tashkent (a ddatblygwyd yn wreiddiol gan Brifysgol Cymru), er ei fod hefyd wedi nodi bod yr arholwyr allanol wedi gallu rhoi sicrwydd i'r Brifysgol bod tystiolaeth i ddangos bod y safonau academaidd gofynnol yn cael eu bodloni. Mae'r Brifysgol wedi ymateb yn briodol drwy roi rhywfaint o gymorth uniongyrchol (megis i reoli Byrddau Arholi, a thrwy roi help gan staff CELT i ddatblygu staff tramor). Mae'r Brifysgol hefyd yn bwriadu symud y ddarpariaeth yn Tashkent o fodel dilysu i fodel etholfreinio yn ystod y broses ail-ddilysu nesaf. Mae'r tîm adolygu'n **cadarnhau**'r camau sy'n cael eu cymryd i ymdrin â'r diffygion yn y ddarpariaeth yn Sefydliad Datblygu Rheolaeth Singapôr yn Tashkent.

86 Mae'r Brifysgol yn ymgysylltu'n llawn gyda'i phartneriaid yn y broses o sicrhau ansawdd ei darpariaeth. Er enghraifft, sefydlwyd y Swyddfa Partneriaethau Addysgu i helpu sefydliadau partner i sicrhau bod safonau'r Brifysgol yn cael eu cynnal, gan gynnwys wrth gymeradwyo llawlyfrau cwrs a dogfennau eraill.

87 Mewn trafodaethau gyda'r tîm adolygu, cytunodd y staff a'r myfyrwyr bod myfyrwyr sy'n cofrestru drwy drefniadau trosglwyddo neu drefniadau mynediad wedi'u paratoi'n dda yn academaidd cyn cofrestru yn y Brifysgol. Mewn rhai achosion, mae myfyrwyr yn dod i'r Brifysgol ar gyfer blwyddyn sylfaen cyn i'w cyrsiau ddechrau er mwyn cwblhau eu paratoadau, sy'n cynnwys gwneud addasiadau diwylliannol.

88 Lluniwyd y cymorth dysgu i fyfyrwyr sy'n astudio o bell neu mewn sefydliadau darparu eraill i adlewyrchu'r cymorth a gynigir ym Mhrifysgol Bangor cyn belled ag y bo modd. Dywedwyd wrth y tîm adolygu, er enghraifft, bod myfyrwyr sydd wedi'u seilio yn Wrecsam yn gallu defnyddio'r porth 'fyMangor' a'r rhith-amgylchedd dysgu'n hawdd, a bod y ddarpariaeth rhith-amgylchedd dysgu ar gael i fyfyrwyr yn Tsieina ei defnyddio. Roedd y staff cymorth proffesiynol yn amlwg yn ymwybodol bod angen defnyddio dulliau darparu amrywiol a pherthnasol wrth roi gwasanaethau cymorth i'r myfyrwyr mewn amrywiaeth eang o fannau a sefyllfaoedd.

**QAA2014 - R9898 - Awst 18**

© Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch 2018

Adeiladau Cambrian, Sgwâr Mount Stuart, Caerdydd, CF10 5FL
Rhifau elusen gofrestredig 1062746 ac SC037786
www.qaa.ac.uk